PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

75c | Rhif 461 | Medi 2023










## PRIODASAU'R HAF



Steffan Davies a Laura Tapp, Ger-y-Cwm. Penrhyn-coch briodwyd ar 24 Mehefin 2023.



Sion England a Sara Jones, Bow Street briodwyd ar y 12fed o Awst.



Gwen a Beca ap Robert ar ddiwrnod eu priodas yng Nghaerdydd ar yr 17eg o Fehefin.



Priodwyd Heledd George a Neil Dawson yng nghapel Gwaelod y Garth ar Orffennaf 8fed. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yn Belfast.



Llun:Iestyn Hughes

Priodas Lois Dafydd ac Uraia Nausala yng Nghapel y Garn a Neuadd Gymunedol y Borth ar ddyddSadwrn yr 16eg o Fedi. Daeth teulu Bow Street a theulu Fiji ynghyd i blethu dau ddiwylliant mewn dathliad lliwgar a hapus.

# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**



**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 07737 622034
**GADEIRYDD Y TINCER – Richard Owen**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 07939 652273
**IS-GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**YSGRIFENNYDD – Iona Davies**, Y Nyth, Llanilar, Aberystwyth, SY23 4NZ
☎ 01974 241087
ionadavies752@btinternet.com
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cêt Morgan**
Fferm Glanfrêd, Lôn Glanfrêd, Llandre SY24 5BY
cetmorgan@icloud.com 07966 510195
**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
3 Brynmeillion, Bow Street, SY24 5BP
**ADOLYGIADAU LLYFRAU**
**Llinos Dafis**, Cedrwydd, Llandre
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**TINCER TRWY'R POST –**
**Edryd ac Euros Evans**, 33 Maes Afallen
Bow Street

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Esther Prytherch** ☎ 07968 593078
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Heulwen Lewis**, Deiniol, Capel Bangor
☎ 880413 heulwenlewis@btinternet.com
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch
☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296



CYMRAEG
Ariennir y Tincer yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.


# dyddiadur

**Rhifyn Hydref: Dyddiad cau** Hydref 6 **Dyddiad cyhoeddi** Hydref 18

**MEDI 20** Nos Fercher Cor Merched Cymreig Mornington Peninsula Awstralia, Cor Meibion Aberystwyth a Rhys Meirion yn Neuadd Rhdyypennau am 7.30

**MEDI 22-23** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Theatr Clwyd yn cyflwyno addasiad Cymraeg Branwen Davies o Fleabag gan Phoebe Waller-Bridge yn Theatr y Werin am 7.30

**MEDI 23** Nos Sadwrn Bara Caws yn cyflwyno Ffenast siop gan Iola Ynyr a Carys Gwilym yn Arad Goch am 7.30 Canllaw oed 14+

**MEDI 27** Nos Fercher Noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn yng nghwmni Sharon Morgan yn festri Horeb am 7.30

**MEDI 28** Nos Iau Dewch i ddathlu! Noson ym Mwyty Consti i ddathlu llwyddiant Meleri Wyn James ybg nghwmni beirdd, llefarwyr a cherddorion lleol am 7.30 Tocynnau £5 Nifer cyfyngedig o Siop Inc neu nia.peris@btopenworld.com neu gwenllian@ylolfa.com

**MEDI 29** Pnawn Gwener Darlith Waldo ' Plentyn y ddaear – John Gwilym Jones ac yn lansio llyfr Darlithiau Waldo yn y Drwm LLGC o 4.00-6.00 Gweinir te/coffi o 4.00 Am docyn https://bit.lyDarlithWaldo2023

**MEDI 29** Nos Wener Gai Toms yn Sesiwn nos Wener yn y Llew Gwyn, Tal-y-bont am 8.00

**MEDI 30** Pnawn Sadwrn Te prynhawn yng Nghartref Tregerddan am 2.30 Mynediad: £3.00; plant £1.50. Trefnir gan Gyfeillion Cartref Tregerddan

**HYDREF 4** Nos Fercher Oedfa ddiolchgarwch Horeb 7.00 Y Parchg Ddr Watcyn James

**HYDREF 8** Bore Sul Ras Hwyl Rheidol o Orsaf Bwer Rheidol /Canolfan Ymwelwyr am 10.15

**HYDREF 8** Dydd Sul Te Prynhawn Sioe'r Cardis yn Neuadd Goffa Tal-y-bont am 2.00

**HYDREF 12** Nos Iau Noson yng nghwmni y ffotograffydd Arvid Parry Jones – Merched y Wawr Penrhyn-coch yn Neuadd y Penrhyn am

**HYDREF 12** Nos Iau OPRA Cymru yn cyflwyno Peth bach di cawr (Gareth Glyn) yng Nghanolfan y Celfyddydau am 6.30

**HYDREF 18** Nos Fercher Angharad Tomos yn sôn am Arlwy'r sêr – nofel yn seiliedig ar hanes bywydau R. Silyn Roberts a'i wraig Mary Silyn. Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**HYDREF 20** Nos Wener Noson agoriadol Cymdeithas Lenyddol y Garn yng nghwmnni Ian Gwyn Hughes, Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus, Cymdeithas Bêl-droed Cymru, am 7.30 o'r gloch

**HYDREF 20-21** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Dathlu 25 mlynedd Cymdeithas Eisteddfodau Cymru yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth Gweler https://steddfota.cymru/wp/


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Mehefin 2023

**£25** (Rhif 96) Gwyneth Ann Davies, Ynys, 12 Maes Seilo, Penrhyn-coch
**£15** (Rhif 235) Eurgain Rowlands, Sir Gaerfyrddin
**£10** (Rhif 130) Mair Jenkins, Cwmbwa, Penrhyn-coch

Fe dynnwyd y rhifau buddugol ym Mwyllgor Sioe Capel Bangor
Cofiwch os ydych yn aelod o'r cyfeillion ac yn newid enw neu gyfeiriad plis rhowch gwybod i'r trefnydd Bethan Bebb 01970880228 neu ar ebost m.e.bebb@talk21.com. Diolch yn fawr i bawb sydd wedi ymaelodi.

## Rhoddion

Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

**Clwb Cylch Cinio Aberystwyth** £100
**Rhodd di-enw** £15


## Carfan merched dan 16 CPYC

Llongyfarchiadau i Lowri Bishop, Llio Tanat Morgan, Nel Rowlands a Tirion Sedgwick a ddewiswyd i garfan Merched dan 16 oed Cymdeithas Pel-droed Ysgolion Ceredigion.


## AR WERTH CARAFAN

**Coachman Amara 380/2.**
Gwres canolog, popty, hob â 4 cylch (un trydan, 3 nwy) Cawod. Ychwanegiadau hael ac hefyd adlen 'porch' ac adlen 'canopy'. Symudwr ('mover'). Gwasanaeth blynyddol, a theiars Newydd sbon. Gorchudd Gaeaf. Cyflwr da. Pris i'w drafod.

**Ymholer â 01970 828751**




## 30 mlynedd yn ôl




**Gala nofio -** Dyma bencampwyr Gala nofio Ysgol Rhydypennau. O'r chwith i'r dde: Aldwyn Roberts, Dafydd Erwan Davies, Rhian Wynn Jones a Kara Simpkin. Enillodd tim Eleri ( tim yr Ysgol_ yn erbyn Ystwyth a Rheidol (timoedd arall yr ysgol) Dau gapten Eleri yw: Aldwyn a Rhian. Dafydd Erwan, Rhian Wynn a Kara gafodd y nifer mwyaf o bwyntiau. Cafodd y tri un fedal i'w chadw a chwpan i'w chadw am flwyddyn. (*Y Tincer* Medi 1993)

## Aber-ffrwd a Chwmrheidol

**Haf o sioeau**
Mae Dafydd Morris Neuadd Parc wedi cael haf prysur iawn. Bu yn beirniadu y cobiau Cymreig yn sioe Frenhinol Windsor ac yna yn mis Gorffennaf cafodd yr anrhydedd o feirniadu yn Sioe Frenhinol yr Alban. Bu criw y rhaglen Ffermio S4C yn ffilmio yn y Neuadd fel rhagflas.

**Cydymdeimlad**
Trist iawn yw gorfod cofnodi marwolaeth Dylan Jenkins, Fferm y Moc, Ffostrasol - mab Aled a'r ddiweddar Helen gynt o Fferm Aber-ffrwd. Cynhaliwyd y gwasanaeth yng Nghapel Pen-llwyn gyda y Parchg Carys Ann yn arwain mewn oedfa gynnes iawn. Rhoddwyd ei weddillion i orwedd gyda ei fam yn mynwent Aber-ffrwd. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â teulu Ty'n Wern, Aber-ffrwd ar farwolaeth brawd Glenys, Dai Neil Davies, New Cross ar ôl rhai misoedd o afiechyd blin.

**Arholiadau**
Llongyfarchiadau i Megan Caehaidd ar ei chanlyniadau arbennig yn arholiadau TGAU. Pob hwyl i ti yn y chweched dosbarth

**Swydd newydd**
Dymuniadau gorau hefyd i Shirley Evans, Caehaidd, yn ei swydd newydd yn Ysgol Henry Richard Tregaron. Bydd Cylch Meithrin Pen-llwyn yn gweld eisiau Miss Shirley yn fawr.

**Sioeau lleol**
Mae nifer o bobl yr ardal wedi bod yn brysur iawn yn y sioeau lleol drwy yr haf. Llongyfarchiadau i deulu Toedrhiwceir ar ennill nifer o wobrau yn sioe Capel Bangor, Llanilar a Thal-y-bont.

Ennillodd Hewid Heti, eboles Nerys Daniel y drydedd wobr yn y sioe Frenhinol ac mae ei cheffyl rhan frid Hewid Hooch wedi cael tymor llwyddiannus iawn yn ennill nifer o bencampwriaethau yn Sioeau Capel Bangor, Tal-y-bont a Thregaron ac ennill y wobr am y ceffyl gorau yn Sioe Llanilar. Mae Myfi Mon Penffrwd hefyd wedi dechrau cysdadlu gyda ei cheffyl hithau. Hyfryd yw gweld y sioeau hyn yn cael cefnogaeth pobl lleol.

YTincer@googlemail.com

# Y Borth

**Sefydlu a chydymdeimlo**
Sefydlu Nic BeeTrist oedd clywed am farwolaeth tad y parchg Bee – estynnwn ein cydymdeimlad iddo ar ei broefdigaeth

**Marwolaeth**
Yn Yr Wyddgrug, Sir y Fflint, yn 94 oed bu farw Mary Elen James, yn enedigol o'r Borth – fe'i magwyd yma nes mynd i'r coleg. Isgaer oedd enw ei chartref, tŷ adeiladwyd gan ei thad, William Christmas Humphreys, oedd yn weinidog yn Shiloh, (Eglwys Fethodistaidd) y Borth. Bu ei brawd yn beldroediwr brwd gyda Borth United rhwng 1934 -1939. Claddwyd ei rhieni ym mynwent Capel y Garn. Ymddangosodd teyrnged iddi yn *Papur Fama* - papur bro Yr Wyddgrug.

**Gwasanaeth bws 512 Aberystwyth -Ynys-las**
Ers 18 Medi dychwelodd y gwasanaeth yma i fws pob dwy awr.

**Cyffro'r Carnifal!**
Roedd Carnifal y Borth yn llwyddiannus iawn unwaith eto, er gwaethaf y tywydd garw a gafwyd yn ystod y rhan fwyaf o fis Gorffennaf a mis Awst.

Daeth nifer o drigolion lleol ac ymwelwyr ynghyd ar gyfer y Sioe Gŵn, yr Helfa Drysor ddifyr a'r ddau gwis heriol. Lluniwyd delweddau a chreadigaethau trawiadol gan bobl o bob oed yn yr Wŷl Sialc a'r Gystadleuaeth Cestyll Tywod, er na wnaethon nhw barhau'n hir iawn yn y glaw!

Cafwyd cefnogaeth dda i'r gystadleuaeth Tenis Bwrdd a'r Twrnamaint Pŵl a Dartiau a bu cystadlu brwd am y tlysau. Yn ffodus iawn, roedd y tywydd yn braf ar gyfer y Diwrnod Hwyl i'r Teulu yn Ysgol Craig yr Wylfa lle cafodd y plant gyfle i fwynhau llu o weithgareddau cyffrous ac anarferol.

Yn dilyn y Ras Falwod gyffrous yng nghanolfan Seren y Môr, cynhaliwyd arwerthiant hynod lwyddiannus a gododd dipyn o arian. Cafwyd cyfraniadau at yr achos mewn digwyddiadau eraill hefyd yn cynnwys y Noson Drag ac yn enwedig yn ystod yr orymdaith liwgar ar Ddiwrnod y Carnifal, dydd Gwener 4 Awst. Nid mater hawdd oedd cael caniatâd Cyngor Ceredigion i gau'r ffordd am ychydig oriau ar y diwrnod, meddai'r trefnwyr, gan ychwanegu ei fod yn mynd yn anos bob blwyddyn.

Wedi'r orymdaith, ymgasglodd y dorf yn yr heulwen ar gaeau'r Neuadd Gymunedol lle'r oedd stondinau bwyd a diod, ffair fach, a disgo awyr agored yn chwarae amrywiaeth o ganeuon dawns poblogaidd.

Ychydig ddyddiau'n ddiweddarach, ar Ddiwrnod Agored y Gerddi Cymunedol, daeth cyfle i bobl fwynhau paned a chacen ac ymlacio ynghanol





## Arddangosfa Celfyddydau'r Borth yng Nghaersws

Ers ei sefydlu yn 2016, mae Celfyddydau'r Borth wedi cynnal llu o arddangosfeydd, perfformiadau a digwyddiadau cymunedol.

Yn dilyn blwyddyn hynod o brysur yn 2019 – yn cynnwys Gŵyl y Bwganod Brain, tair arddangosfa a pherfformiad cymunedol 'Borth Begins' – bu'n rhaid i grŵp Celfyddydau'r Borth, fel gweddill y wlad, ymgilio'n llwyr, gan ymddangos unwaith yn unig ym mis Tachwedd 2020 ar gyfer dangosiad o ffilm o 'Borth Begins' gan Felix Cadaman. Ond gwelwyd y grŵp yn adfywio yn 2023, gyda gwahoddiad i arddangos eu gwaith am yr eildro yng Nghanolfan Gelfyddydau'r Canolbarth yng Nghaersws yn ystod mis Medi a mis Hydref, wedi sioe lwyddiannus yno yn 2017. Bydd arddangosfa 'Ymyl' yn amlygu gwaith amlgyfrwng gan artistiaid gweledol Celfyddydau'r Borth a'r rheiny'n defnyddio amrywiaeth o dechnegau wedi'u hysbrydoli gan amgylchedd unigryw'r ardal – y môr, y traeth, y mynyddoedd, y lliwiau a'r golau sy'n fythol newid. Mae'r artistiaid a'r lleoliad yn llythrennol ar yr ymyl, wedi'u corlannu rhwng y môr a'r mynyddoedd.

Rachel Rea sydd wedi curadu 'Ymyl' a bydd hi hefyd yn dangos ei gwaith. Yn artist a churadur lleol a arferai fyw yn y pentref, mae'r Borth a'i



Borth Gwyntog gan Sarah Pugh

chysylltiad â'r môr wedi bod yn ysbrydoliaeth i Rachel erioed. "Dwi wedi paentio, cerdded a nofio o gwmpas y Borth ac Aberystwyth dros y deng mlynedd diwethaf. Dwi wedi syrthio mewn cariad â'r pentref yma ar erchwyn y môr, sy'n glynu at y tir er gwaetha sawl storom. Mae fy ngwaith wedi datblygu o nofio byrlymus mewn tonnau gaeafol, o heddwch arnofio ar wyneb y dŵr ar ddiwrnod llonydd ac o eiliadau tawel yn edrych allan dros y caeau, y cefnfor a'r gors o ffenest fy stiwdio," meddai Rachel sydd wedi gweithio yng Nghanolfan Celfyddydau Aberystwyth ers chwe blynedd ac sydd hefyd yn gweithio fel curadur yn y Brifysgol.

Mae Celfyddydau'r Borth yn rhychwantu pob agwedd ar weithgaredd artistig. Caiff y gair llafar, drama a cherddoriaeth eu cynrychioli yn ogystal â'r celfyddydau gweledol. Nod y grŵp yw cefnogi artistiaid sy'n byw ac yn gweithio'n lleol, gan gynnig cyfleoedd nid yn unig i



**Teulu o Artistiaid**
Cynhaliwyd arddangosfa o waith celf gan deulu Williamson-Evans o'r Borth yng Nghanolfan Cwiltiau Cymreig Jen Jones yn Llambed o 11 Gorffennaf tan ddiwedd Awst. Roedd yn cynnwys gwaith cerameg gan Jenny Williamson a gweithiau celf gain gan ei gŵr Stuart Evans a'u mab nhw Jonah Evans. Mae'r tri i'w gweld yn y llun ar y noson agoriadol gyda Maer Llambed.

heddwch y blodau a'r coed.

Y Ras Hwyaid oedd y digwyddiad olaf i'w drefnu gan bwyllgor y carnifal a gyda lefelau dŵr afon Leri mor uchel, roedd y cyfan drosodd mewn chwinciad chwannen. Unwaith eto, dyma ddigwyddiad a gododd dipyn o arian.

Hyfryd oedd gweld y pentref yn gwneud cymaint o ymdrech i fwynhau'r Carnifal, er gwaethaf tywydd siomedig yr haf, a mawr yw diolch y trefnwyr cannoedd o bobl a gefnogodd ymha bynnag ffordd.


Codwyd deng mil o bunnoedd i grwpiau lleol eto eleni ac fe gaiff yr arian ei ddosbarthu unwaith y daw'r holl geisiadau am arian i law gan grwpiau a sefydliadau lleol.

**Cyfrol pen-blwydd Amgueddfa Ceredigion yn 40**

Cafodd llyfr newydd gan Stuart Evans o'r Borth ei gyhoeddi gan Gyfeillion Amgueddfa Ceredigion ar 22 Gorffennaf. Roedd lansiad *First Impressions* yn un o gyfres o ddigwyddiadau i ddathlu pen-blwydd yr Amgueddfa yn 50 oed eleni. Bu Stuart yn gweithio yn yr Amgueddfa am dros 40 o flynyddoedd ac fe welodd newidiadau mawr yn ystod y cyfnod hwnnw. Ers ymddeol, mae wedi ysgrifennu am hanes a datblygiad cynnar yr Amgueddfa, ar adeg o newid yn y Canolbarth.

Yn ystod y 1970au roedd cartref yr Amgueddfa mewn tŷ Sioraidd pedwar llawr yn Stryd yr Efail, nid nepell o safle'r castell. Wrth i'r casgliad dyfu'n sydyn, fe symudodd yn 1982 i'r Coliseum ac mae yno hyd heddiw. Fersiwn ffuglennol o'r hyn ddigwyddodd yn y 1970au sydd yn y llyfr ond mae wedi'i seilio ar ddigwyddiadau go iawn. "Mae fy atgofion o'r blynyddoedd cyntaf hynny braidd yn gymysg ond fel sy'n digwydd gyda hanes o bob math, mae'n agored i'w ddehongli", meddai Stuart.

"Roeddwn i eisiau ysgrifennu am y ffordd yr oedd cymeriadau unigol wedi llywio'r Amgueddfa ac adeiladu casgliad oedd yn cynrychioli hanes Ceredigion. Roeddwn i hefyd eisiau adlewyrchu'r ffordd gomig a chalonogol y bu criw bach o bobl yn cydweithio i greu sefydliad unigol a hynod. Mwynheais fy ngyrfa yn yr Amgueddfa yn fawr ac mae gen i lawer o atgofion hapus a llawen. Rwy'n ddiolchgar hefyd i Carrie Canham, curadur presennol yr Amgueddfa, am gefnogi creu'r llyfr hwn."




**Pen-blwydd Hapus i'r Hwb!**

Cafwyd dathliadau arbennig yn Hwb Cymunedol y Borth ddydd Gwener 8 a dydd Sadwrn 9 Medi i nodi pen-blwydd y fenter yn 15 oed.Daeth nifer o'r bobl sydd wedi bod ynghlwm â'r ganolfan ers y cychwyn cyntaf ynghyd ar gyfer yr achlysur. Cyflwynwyd cardiau ac anrhegion bach wedi'u gwneud â llaw i bedwar o bobl oedd yn allweddol yn yr ymgyrch i agor y lle yn 2008 sef Carol Bainbridge, Joy Cook, Catrin Eldred o Plant Dewi, Roy Jones a Ray Quant. Diolchwyd hefyd i ymddiriedolwyr presennol yr Hwb yn cynnwys Jackie Batisha, y Cynghorydd Hugh Hughes, Margaret Haynes a Rona Dalton Thompson.

"Mae'n anodd credu bod 15 mlynedd wedi mynd heibio ers i'r syniad o gychwyn yr Hwb gael ei wyntyllu am y tro cyntaf. Ein nod ar y cychwyn oedd darparu gweithgareddau a gwasanaethau oedd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau plant a theuluoedd lleol. Yr un yw ein hamcanion heddiw ond rydyn ni wedi ehangu'r elusen i gynnwys Clwb Ieuenctid y Borth, Sied Dynion y Borth, Cymuned Ofalgar y Borth (ar gyfer oedolion hŷn) a'n Caffi Cymunedol poblogaidd – a'r rhain oll yn digwydd ochr yn ochr â gweithgareddau'r Ganolfan Deulu. Ac ac er ein bod



**Catrin Eldred, Rheolwr Plant Dewi, a Helen Williams, Rheolwr Hwb Cymunedol y Borth, gyda'r gacen dathlu a bobwyd gan Amanda Mallows.**



**Pili Pala gan Bodge**

gwaith gan 23 o artistiaid o'r Borth, sef Bodge, Phil Dalton, Lynne Dickens, Jonah Evans, Stuart Evans, Annie Ferris, Heather Fletcher, Mary Francis, Linda Henry, Neil Johnson, Peter Jones, Becky Knight, Sue Lee, Diane Logan, Emma Maar, Hannah Mann, Mike Mann, Martine Ormerod, Sarah Pugh, Rachel Rea, Eve Smith, Dean Tweedy a Jenny Williamson. Cynhelir 'Ymyl' er cof am Peter Jones, un o sylfaenwyr Celfyddydau'r Borth fu farw ym mis Chwefror. Mawr yw'r golled ar ei ôl.

arddangos eu gwaith ond hefyd i rannu arbenigedd a dysgu sgiliau newydd. Cred y grŵp fod gan y celfyddydau a diwylliant ran bwysig i'w chwarae o ran cyfoethogi a hybu llesiant ymhlith y gymuned ehangach.

Mae'r arddangosfa'n cynnwys

**'Ymyl':**
**17 Medi tan 29 Hydref.**
**Canolfan Gelfyddydau'r Canolbarth, Maes Mawr, Caersws, SY19 5SB.**

**Dydd Iau i ddydd Sadwrn, 10yb tan 4yp**




**(O'r chwith i'r dde) Ray Quant, Margaret Haynes, Amanda Mallows, Carol Bainbridge, Joy Cook, Catrin Eldred, Helen Williams, Jackie Batisha, Cynghorydd Hugh Hughes.**

wedi wynebu cyfnodau heriol ar adegau - yn enwedig yn ystod cyfnodau clo Covid - rydym yma o hyd", meddai Helen Williams, un o'r sylfaenwyr sydd hefyd yn rheolwr yr Hwb ers sawl blwyddyn.

"Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi cefnogi ein gwaith ar hyd yr adeg – yn sylfaenwyr, yn ymddiriedolwyr, yn aelodau staff a'n holl wirfoddolwyr gwych sydd wedi sicrhau bod pob dim yn digwydd dros y 15 mlynedd diwethaf. Yn bennaf oll, hoffem ddiolch i'r bobl leol hynny o bob oed sy'n dod yma'n rheolaidd i gymryd rhan yn y gweithgareddau gwahanol rydyn ni'n eu trefnu. Hoffem ddiolch hefyd i'r Loteri Genedlaethol am eu cefnogaeth hael sydd wedi'n caniatáu i gynnig rhaglen amrywiol o weithgareddau wedi'u teilwra at anghenion ein defnyddwyr."

Canolfan Deulu'r Borth oedd yr enw gwreiddiol pan agorodd yn 2008 ond fe'i newidiwyd yn fwy diweddar i Hwb Cymunedol y Borth. Mae'n cynnal ystod eang o weithgareddau i gefnogi trigolion lleol gan gynnwys gweithgareddau'r Ganolfan Deulu fel Borth Actif, Bymps a Babis, Iaith a Chwarae, cyrsiau cefnogi rhieni, yr Hwb Dillad a sesiynau Chwarae Awyr Agored. Mae hefyd yn rhedeg Clwb Ieuenctid, grŵp dementia cyfeillgar, grŵp Creu Ar y Cyd i bobl hŷn, clwb crosio, Caffi Cymunedol wythnosol, grŵp Cerdded Er Lles a'r ychwanegiad diweddaraf, Sied Dynion y Borth.

Am fanylion pellach, gweler eu tudalen FaceBook facebook.com/BorthCommunityHub neu Instagram neu gysylltwch â Lisa ar 07396534569 neu isa@borthcommunityhub.co.uk.

**Clinig Ffliw a Covid-19**
Bydd meddygfa'r Borth yn cynnal clinig arbennig yn Neuadd Gymunedol y Borth rhwng 10yb a 4yp ar ddydd Mawrth 10 Hydref ar gyfer cleifion sy'n gymwys i gael y brechiad ffliw a brechiad atgyfnerthu Covid. Bydd sesiynau galw heibio ar gael hefyd ond mae disgwyl oedi ar gyfer y rhain. I drefnu apwyntiad, ffoniwch y feddygfa ar 01970 871475 neu lawrlwythwch ap MySurgery. Bydd te, coffi a lluniaeth ysgafn ar gael am gyfraniad bach tuag at elusen ddewisedig

**Astudio yn UDA**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dion Ellis-Clark ar ennill ysgoloriaeth bêl-droed i astudio ym Mhrifysgol William Penn yn Iowa yn yr Unol Daleithiau. Mae newydd gwblhau ei radd mewn Therapi Chwaraeon ym Mhrifysgol Hartpury yn Sir Gaerloyw a bydd nawr yn dilyn cwrs MA yn Iowa am ddwy flynedd.

**Awdur lleol yn cyhoeddi nofel ffantasi**
Mae'r awdur Alan Cash o'r Borth wedi lansio ei lyfr diweddaraf *Borderlands* mewn digwyddiad yng Nghaffi Hwb Cymunedol ar 14 Gorffennaf. Roedd y lle'n llawn ar gyfer yr achlysur a'r gynulleidfa'n cael clywed gan Alan am ei nofel ffantasi newydd. Mae wedi'i gosod yn y Borth yn 1993 ac 1943 felly nid dyma'r Borth ry'n ni yn ei nabod heddiw, meddai Alan. Baker Street Studios sydd wedi cyhoeddi *Borderlands* ac mae ar gael i'w brynu am £9.99 drwy werthwyr llyfrau megis Waterstones a WHSmith.



**4 Cenhedlaeth**
Llongyfarchiadau mawr i Nansi Hayes, gynt o'r Borth, ar ddod yn hen fam-gu am y tro cyntaf. Mae'r llun yn dangos pedair cenhedlaeth o'r teulu – Nansi gyda'i gor-ŵyr newydd Noa Gruffydd Evans, ei merch Sharon (sy'n fam-gu am y tro cyntaf) a'i hwyres Carys Evans, mam Noa.



## Drama Ar Lan y Môr

Cynhaliwyd perfformiad o'r ddrama Ar Lan y Môr yng nghanolfan gelfyddydau Seren y Môr | Star of the Sea ar nos Fawrth 29 Awst. Roedd y sioe wedi'i chreu a'i pherfformio gan Rhiannon Mair o gwmni theatr Volcano.

Yn gynnil ac yn gelfydd, fe gyflwynodd stori ei mam-gu gan ddefnyddio casgliad o gerrig traeth i adrodd y naratif aml-haenog. Mae hi ymhlith y preswylwyr olaf sy'n byw ar stryd ar lan y môr yn Sir Benfro. O'r 19 tŷ sydd yno, mae 15 ohonynt yn dai gwyliau. Beth yw dyfodol y stryd? Beth yw dyfodol ardaloedd glan mor gorllewin a gogledd Cymru? Beth yw effaith tai gwyliau ar iaith a diwylliant bro? Beth yw'r penderfyniadau anodd personol sydd ynghlwm a'r sefyllfa? Dyma rai o'r cwestiynau a godwyd gan y ddrama - cwestiynau sy'n berthnasol iawn i bentref fel y Borth ac fe ddaeth cynulleidfa dda at ei gilydd i wylio'r perfformiad.





## Dathlu'r 80!

Pen-blwydd hapus iawn i Lin Stevens o'r Borth oedd yn 80 oed ar ddydd Mawrth 29 Awst. Cyn ymddeol, roedd Lin yn rhedeg siop Stars yn Rhodfa'r Môr yn Aberystwyth.

## Clwb Golff Y Borth ac Ynys-las

**Enillwyr Gwobr Roberts**

Chwaraewyd y gystadleuaeth boblogaidd hon ar Ŵyl y Banc ddiwedd mis Awst. Yr enillydd eleni oedd Jane Raw Rees gyda 38 o bwyntiau, gyda Sue Wilson yn ail, hefyd ar 38 ond yn colli wrth gyfri yn ôl y 9 twll olaf.

Cyflwynwyd y tlws gan Shân Powell, Roberts gynt. Mae'r tlws yn coffau ei mham Sue Roberts oedd yn gapten nôl yn 1985 sef blwyddyn canmlwyddiant y clwb.

**Pencampwriaeth y Menywod 36 twll 2023**

Chwaraewyd y gystadleuaeth eleni ar y dydd Sadwrn ac yna'r dydd Llun canlynol. Nid oedd y tywydd yn ffafriol ac fel sawl penwythnos ym mis Awst eleni, roedd gwyntoedd cryfion yn creu amodau anodd.

Llongyfarchiadau i Jane Raw Rees ein chwaraewr mwyaf cyson eleni ar ennill y wobr gros gyda sgôr o 97 ac 88 sef 185 dros y ddau ddiwrnod. Llongyfarchiadau hefyd i Karen Evans am y sgôr net orau o 77 a 76, cyfanswm o 153 dros y ddau ddiwrnod.

Cafodd dau dlws newydd, a roddwyd gan Sue Wilson a Shan Powell, eu cyflwyno yn wobrau i Jane a Karen.





Diolch i bawb fu wrthi'n trefnu'r gystadleuaeth ac i'r noddwyr am eu gwobrau hael.

# Llandre

**Aelod o Banel**

Llongyfarchiadau i Elen Llewelyn- Evans (13) disgybl yn Ysgol Penweddig, am gael ei dewis i fod yn aelod o Banel Pobl Ifanc Cyngor Llyfrau Cymru. Bydd aelodau'r panel yn mynegi barn ar ddeunydd darllen a themâu cyfredol, ynghyd â'u dyheadau am gyhoeddiadau yn y dyfodol. Yn ategol at hyn, fe fydd y panel yn ystyried ymgyrchoedd amrywiol i hyrwyddo darllen er pleser ymysg pobl ifanc. Bu Elen yn siarad am ei phrofiad o fod yn aelod o'r panel ar raglen Aled Hughes ar 13 Gorffennaf.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Iris Towers Evans a'r teulu, Annedd Wen, ar farwolaeth David Evans ar Awst 4. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosfa Aberystwyth ar 30 Awst.



**Cyflwynwyd Cymrodoriaethau er Anrhydedd i Dr Kate Sullivan a Phil Thomas yn rhan o seremoniau graddio Prifysgol Aberystwyth eleni. Llongyfarchiadau mawr iddynt.**



**Llongyfarchiadau i Gruffydd Sion ddaeth yn drydydd yn yr unawd pres dan 16 yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan. Gwelir ef gyda'i gyfeilydd Tudur Jones.**

**Genedigaeth**

Canol Awst ganwyd Lewys Rhys James – mab i Osian ac Erwain James; ŵyr cyntaf i Penri a Llio James, Gwyniarth, Tai Gwynion; gor-wyr i Gwenda ac Erddyn James, Lluarth a brawd bach i Betsan.

**Geni gorwyr**

Llongyfarchiadau i Elina Davies, Bronallt ar enedigaeth gorwyr – Tomos Cai – mab i Hazel a ŵyr i Margaret Evans.

**Arholiadau**

Llongyfarchiadau ar eu canlyniadau lefel A i Elain Tanat Morgan a dymuniadau gorau ar ei chwrs cerddoriaeth ym Mhrifysgol Lerpwl.

# Trefeurig

**Treialon Cŵn Defaid Trefeurig**

Cynhaliwyd y treialon ar Orffennaf 29 ar Fanc- y-darren. Y beirniad oedd Gwilym Rhys Davies, Dinas Mawddwy. Cafwyd diwrnod sych, perffaith at y cystadlu.

Dyma'r canlyniadau ac enwau y cŵn:

**Dull Cenedlaethol Agored**

1. Arthur Morgan a Mwnt Floss, Mwnt 5 Rhedeg allan, Codi a Chyrchu
2. Irwel Evans a Mwnt Mac, Gwnnws 5
3. Dylan Davies a Sali, Bryn-crug 8
4. John Wheaton ac Erwood Kate, Abertawe 14
5. Llion Harries a Preseli Jock, Crymych 17
6. Robert Ellis a Fly, Nant-y-moel 17

**Dull Cenedlaethol Novis**

1. John Wheaton ac Erwood Kate, Abertawe 14
2. Irwel Evans a Gwnnws Jet, Gwnnws 18
3. Dylan Davies a Foinaven Ellie, Bryn-crug 22

## Penrhyn-coch

**Suliau Horeb**

*Medi*

24 10.30 Coda ni

*Hydref*

1 2.30 Oedfa gymun Y Parchg Peter Thomas

8 10.30 Y Parchg Peter Thomas

15 10.00 Cyrddau mawr Bethel a Seion – Y Parchg Denzil John ym Methel

22 10.30 Jamie Medhurst

29 2.30 Dr Rhidian Griffiths ym Methel

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Lyn Jones, Glan Seilo ar farwolaeth ei brawd yng nghyfraith yng Nghaerdydd ddiwedd Mehefin ac â Sharon Jones a theulu y ddiweddar Val Jones, Maes Seilo fu farw ddechrau Gorffennaf.

A Delyth, Philip a Meriel Ralphs ar farwolaeth Fred Ralp[hs ar Awst 6 yn 93 oed – gweler teyrnged isod.

â Eleri James, Penrhyn-coch a Wyn James a'r teulu, ar farwolaeth Aeronwy James fu farw 6 Awst yn 91 oed. Cynhaliwyd yr angladd – gwasanaeth preifat yn Amlosgfa Aberystwyth ar 17 Awst; derbyniwyd rhoddion tuag at Alzheimer's Research UK a Chymdeithas Hanes Teuluoedd Ceredigion d/o Gwyn Evans (C T Evans), Llandre. Cyhoeddir teyrnged y mis nesaf.

**TEYRNGEDAU**

**Fred Ralphs**

Ganed Fred ym 1929 yn Morda, (ger Croesoswallt), yr ail o dri o fechgyn. Yn dair oed, symudodd y teulu i fyw yn Stryd y Felin, Aberystwyth. Pan yn bump oed, bu farw ei fam yn sydyn a symudodd ei fam-gu o Groesoswallt i ofalu am y teulu.

Un atgof o'i blentyndod oedd pan ymwelodd eu Mawrhydi'r Brenin Siôr VI a'r Frenhines Elizabeth ag Aberystwyth ym 1937, i agor Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn swyddogol. Safodd Fred a phlant ysgol eraill yn orymdaith ar y grisiau o flaen yr adeilad. Yn ystod ei oes bu'n ddigon ffodus i fod yn dyst i ddau goroni Brenhinol arall.

Wedi iddo adael yr ysgol, cafodd Fred waith drws nesaf i'w gartref ym mhopty Powell 'bach', bu'n cynorthwyo yn y becws nes iddo gael ei alw i'r Gwasanaeth Cenedlaethol ym 1948. Graddiodd fel Gynnwr yn y Fagnelaeth Frenhinol a threuliodd 6 mis yn Hong Kong yn ystod anterth Rhyfel Cartref China yn gofalu am y goleuadau chwilio.

Yn dilyn ei Wasanaeth Cenedlaethol, dychwelodd i weithio i Powell Bach, nes i'r cwmni gau. Bu'n gweithio wedyn fel gyrrwr danfon nwyddau yng ngolchdy Aberystwyth nes iddo gyfarfod a phriodi Delyth a symud i Benrhyn-coch ym 1965. Cafodd swydd yn gweithio i Fwrdd Dŵr Cymru yn y gwaith trin, ym Mont-goch. Ei swydd oedd gweinydd ffiltro, gan sicrhau cyflenwad o ddŵr yfed glân i ardal Aberystwyth, a bu yno am 28 mlynedd hyd ei ymddeoliad.

Priododd Fred â Delyth yn Eglwys Sant Ioan, Penrhyn-coch a dathlwyd eu pen-blwydd priodas o 58 mlynedd, yn gynharach eleni. Bu iddynt ddau o blant, Meriel a Philip.

Bu Fred yn aelod cyfranogol o Glwb Beicio Ystwyth am flynyddoedd. Bu'n gefnogwr brwd o GPD Manchester United ond yn bwysicaf oll yn gefnogwr oes i Glwb Pêl-droed Aberystwyth. 'Roedd yn aelod o Gymdeithas Bysgota Aberystwyth a pharhaodd felly am y rhan orau o hanner can mlynedd, a dal swydd yn feili ac yn adnabod

## Sioe Penrhyn-coch


Roedd yn dda gweld Sioe Penrhyn-coch yn ôl eleni – fe'i cynhaliwyd ar Sadwrn 19 Awst. Y llywyddion oedd Elsie a Morris Morgan, Bwthyn – yn y llun gwelir Elsie gyda Gwenan Price.

Llongyfarchiadau i Gwenan Hedd gafodd y wobr gyntaf yn y categori Amser y dydd gyda 'Dant y llew' ac i'r enillwyr canlynol yng nghystadleuaeth y Tincer

1 Sian Fflur Jenkins – Garej


2 Wendy Reynolds Gweithdy Keith Morris

3 Gwenan Hedd Jenkins- Coedwig













Moi a Now y ddau wedi derbyn cyntaf ac ail .

pob modfedd o'r afon Rheidol fel cefn ei law.

Deilliodd y diddordeb mewn garddio yn ôl i'w blentyndod pan fu'r teulu'n cadw rhandir yn tyfu eu llysiau eu hunain yn Nhan-y-bwlch. Tyfodd y diddordeb hwn ymhellach yn dilyn ei ymddeoliad. Yn 93 mlwydd oed, 'roedd yn parhau i baratoi ei ardd ar gyfer Sioe Arddwriaethol Penrhyn-coch eleni, prif ddigwyddiad y tymor yn ei lygaid!

Mwynhaodd Fred dros 30 mlynedd o ymddeoliad yn ei filltir sgwâr.

**Dr Mary Aeronwy James**

Trist iawn yw cofnodi marwolaeth Aeronwy James, Cae Mawr, ar 6 Awst 2023. Cafodd Aeronwy ei geni yn Nihewyd yn 1932 a'i magu yng ngogledd Llundain, lle oedd ei thad a'i mam yn cadw rownd laeth a siop gornel. Dychwelodd y teulu i Ddihewyd yn 1940, oherwydd y rhyfel, gan ddychwelyd at ffermio yn ardal Mydroilyn ac yna ger Talgarreg. Yn 1950 aeth Aeronwy i goleg Aberystwyth, i astudio ffiseg, a chafodd beic i deithio nôl a blaen o Dalgarreg i'r coleg. Hi oedd y fenyw gyntaf i ennill gradd dosbarth cyntaf yn Ffiseg yng ngholeg Aberystwyth. Ar ôl graddio aeth ymlaen i wneud gwaith ymchwil gan ennill doethuriaeth.

Ar ôl cwblhau'r ddoethuriaeth cychwynnodd Aeronwy ar yrfa darlithio yng ngholeg Royal Holloway, ger Llundain, a hithau'n 25 mlwydd oed. Roedd Aeronwy ac Ifan wedi cwrdd yn y coleg ac yn 1957 priodasant. Rhoddodd Aeronwy'r gorau i'w swydd pan aned y plant Eleri, Cerys a Wyn, fel oedd arfer yr oes.

Yn 1969 dychwelodd y teulu i Gymru, gan ymsefydlu ym Mhenrhyn-coch yn 1970. Dysgodd Aeronwy ffiseg am flwyddyn yn Ysgol Uwchradd Tregaron, profiad wnaeth rhoi tipyn o foddhad iddi. Bu'n dysgu mathemateg am dymor yn Ysgol Penweddig hefyd.

Roedd diddordeb Ifan ac Aeronwy yn hel achau wedi dechrau pan oeddent yn byw ger Llundain ac yn gallu mynd i chwilio am ddogfennau yn y Public Record Office yn Llundain. Wedi dod i Benrhyn-coch dechreuodd Ifan ac Aeronwy fynd i'r Llyfrgell Genedlaethol ac i Archifdy'r Sir i chwilio a chopïo'r cofrestri yno. Dechreusant hefyd gofnodi cerrig beddau mynwentydd Ceredigion, gwaith a fyddai'n para dros 20 mlynedd. Ar gefn ei beic y byddai Aeronwy yn ymweld â'r mynwentydd agosaf, ac yn y car, gyda phicnic ac offer garddio ganddynt, byddai'r ddau yn cyrraedd y mynwentydd pellach. Ffrwyth y llafur hwnnw oedd cynhyrchu 24 cyfrol o gofnodion cerrig beddau, o fwy na hanner mynwentydd Ceredigion. Mae'r cyfrolau bellach wedi eu cyflwyno i'r Llyfrgell Genedlaethol ac i Archifdy'r Sir, ac yn sail i lawer o'r cyfrolau o feddargraffiadau sy'n cael eu cyhoeddi o hyd gan Gymdeithas Hanes Teuluoedd Ceredigion.

Roedd Ifan ac Aeronwy yn aelodau gweithgar iawn o'r gymdeithas. Bu Aeronwy hefyd yn gweithio ar brosiect i osod y National Burial Index ar gyfrifiadur. Yn sgîl y diddordeb yn achau ei theulu ei hun, aeth Aeronwy hefyd ati i hel achau yn broffesiynol am gyfnod, yn ymchwilio'n bennaf ar ran pobl o dras Gymreig ledled y byd.

Roedd Aeronwy hefyd yn awdures. Ysgrifennodd lyfr *Annibynwyr Pisgah a Phenrhiwgaled, Ceredigion* gyhoeddwyd ym 1971. Bu'n cystadlu ar gystadlaethau ysgrifenedig yr Eisteddfod Genedlaethol, gan ysgrifennu traethawd ar hanes y diwydiant dur, a llyfryn am hyfforddi hoci, camp yr oedd yn ei fwynhau yn Ysgol Aberaeron. Aeth ati i gasglu englynion cerrig beddau Ceredigion, ac ennill yr ail wobr am y casgliad yn yr Eisteddfod. Cyhoeddodd y casgliad mewn llyfr wedyn – *Englynion beddau Ceredigion*. Gomer, 1983

Cynhaliodd Aeronwy Ysgol Sul yng nghapel Salem am rai blynyddoedd. Bu hefyd yn aelod a llywydd o Ferched y Wawr, Penrhyn-coch.

Bu Aeronwy yn gefn diflino i Ifan yn ystod y cyfnod lle bu'n dioddef dementia, ac yn ei thro deliodd gyda'r un cyflwr yn ei ffordd dawel, ddirwgnach ei hun.

**Graddio**

Llongyfarchiadau i Seren Wyn Jenkins dderbyniodd radd mewn Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar. Pob lwc yn dy swydd newydd gyda'r Mudiad Ysgolion Meithrin.

Hefyd i'r ddau frawd Tomos ac Owain Wilson raddiodd yn ystod yr haf. Tomos mewn Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer o Brifysgol Portsmouth ac Owain gyda dosbarth cyntaf mewn Peirianneg Awyrennaeth o Brifysgol Southampton. Dychwelodd Tomos i Bortsmouth i studio MSc mewn Perfformiad Chwaraeon tra mae Owain wedi mynd i grwydro De Ddwyrain Asia efo'i gariad. Ar ôl dychwelyd yn hwyr yn Chwefror bydd yn mynd i RAF Cranwell i hyfforddi fel swyddog peirianneg.

Llongyfarchiadau hefyd i Gwion Wilson sydd wedi dechrau ar gwrs yn y chweched dosbarth yn Ysgol Pen-glais ar ol ei ganlyniadau TGAU.

**Enillydd y Sioe Frenhinol**

Llongyfarchiadau i Glenys Morgan gafodd y wobr 1af ar Het I blentyn a chymeradwyaeth uchel yng nghystadleuaeth trefnu blodau Merched y Wawr yn y Sioe Frenhinol



**Llongyfarchiadau i Daniel Huws, Tyddyn Seilo, dderbyniodd Ddoethuriaeth er Anrhydedd mewn Llenyddiaeth yn ystod seremoni raddio Dosbarth 2023 y Drindod Dewi Sant yn Llambed ar Orffennaf 7fed.**

**Cytundeb**

Llongyfarchiadau i Mid Wales Travel fu yn llwyddiannus yn eu cynnig am y gwasanaeth bws T1C Caerdydd-Aberystwyth; nid oes unrhyw newidiadau uniongyrchol ond bydd strwythur prisiau newydd o fis Tachwedd.

**Ennill ras**

Llongyfarchiadau i Gruff Lewis, Tal-y-bont, - y Cymro cyntaf i gwblhau y Ras Ironman yn Ninbych y Pysgod yn ddiweddar ( roedd yn 5ed yn y ras) Dyma'r ail dro iddo gwblhau y ras oedd yn golygu nofio a rhedeg yn ogystal â seiclo.

**Perfformio yng Nghaeredin**

Bu Siôn James, Dol Helyg, yn perfformio yng Ngŵyl Ymylol Caeredin gyda Chymdeithas Ymylol Theatr Prifysgol Birmingham yn ystod mis Awst.



**Richard Owen, urddwyd i'r orsedd ym Moduan gyda'r Archdderwydd Myrddin ap Dafydd.**

**Addysgiadol**
Llongyfarchiadau i Anna Roberts, Dol Helyg ar ei chanlyniadau lefel A a phob hwyl ar ei chwrs yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd. Hefyd i Noa Rowlands. Glan Seilo ar ei brentisiaeth gyda Scottish Power yn Hoylake a dymuniadau gorau i Magi Rowlands ar gael ei phenodi yn Ddirprwy Brif Swyddog yn Ysgol Henry Richard yn Nhregaron.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Laura a Dewi, Bryn Rhedyn, Penrhiwnewydd ar enedigaeth mab – Osian ar 13 Medi.

**Pêl-droed Penrhyn-Coch**
*Tim Cyntaf*
Cynghrair Ardal Gogledd Ddwyrain Lock Stock
05/08 Penrhyn-coch 6 Pen-y-cae 2
09/08 Llandrindod 0 Penrhyn-coch 0
16/08 Penrhyn-coch 3 Llanfair-ym-Muallt 0
29/08 Penrhyn-coch 5 Y Trallwng 0
02/09 Llanuwchllyn 3 Penrhyn-coch 0

Rowndiau Cymhwyso Cwpan FA Cymru
18/08 Penrhyn-coch 6 Aber-miwl 0
Cwpan Cynghrair Lock Stock
09/09 Llanrhaedr-ym-Mochnant 1 Penrhyn-coch 0

*Eilyddion*
Cynghrair Eilyddion FAW Canolbarth? - FAW Reserve League Central

02/09 Eilyddion Penrhyn-coch 3 Eilyddion Llanuwchllyn 2
08/09 Eilyddion Penrhyn-coch 0 Eilyddion Caersws 2
13/09 Eilyddion Bow Street 1 Eilyddion Penrhyn-coch 0



**Pêl-droed**
Macs Evans 7 mlwydd oed o dîm pêl-droed Penrhyn-coch yn ennill chwaraewr y twrnament o dan 8 mlwydd oed yn Bow Street ddechrau Gorffennaf – gwelir ef gyda Joe Ledley a Matt Jones.

## Dôl-y-bont

**Dau brysur ym myd chwaraeon**
Dymunwn yn dda i Tirion a Gruff Sedgwick, Tynsimdde, am y tymor sydd i ddod. Mae Tirion wedi ei dewis i chwarae pêl-droed gyda Carfan merched dan 16 Ysgolion Ceredigion ac i dîm merched tref Averystwyth dan 19 oed. Mae Gruff wedi ei ddewis i garfan bechgyn dan 14 oed Ysgolion Ceredigion ac i Academi Clwb Pêl-droed tref Aberystwyth dan 15 oed. Llongyfarchiadau a phob hwyl i'r ddau.

**Pen-blwydd arbennig**
Llongyfarchiadau a phen-blwydd hapus i Eleri Hughes, Y Warren a fu yn dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Cydymdeimlad**
Cydymndeimlwn â Llinos Evans, Dolwerdd, ar farwolaeth ei brawd, Tegwyn Lewis, Rhos-goch, Capel Madog.



**Clwb Sul Horeb –** Aelodau Clwb Sul Horeb yn hapus iawn wedi dod o hyd i'r darn arian oedd wedi mynd ar goll.



**Brownies Penrhyn-coch ar eu hymweliad ag Amgueddfa Ceredigion a wnaeth eu helpu i orffen y bathodyn Archaeoleg. Diolch i'r staff am eu hamser.**

*Cyfarwyddwyr Angladdau*
*C. T. Evans*

*Perchnogion : Gwyn & Janet Evans*
*Brongenau, Llandre, Aberystwyth SY23 5BS*

*Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn.*
*Wedi ei arwain yn Bersonol gyda Urddas.*
*Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Ddydd a Nôs.*

*Ffôn 01970 820013*
*ebost : gwyn@ ct-evans.com*

James Memorials

Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

james.memorials@btconnect.com

GWASANAETH
GARDDIO
ROBERT
GRIFFITHS

Am bob math o waith garddio ffoniwch
07813 338647

# Clybiau Ceir Penrhyn-coch



Hoffech chi leihau eich milltiroedd yn ddiymdrech, peidio â phoeni am gost rhedeg car a dal i fyw mewn ardal wledig? Mae'n swnio'n freuddwyd amhosibl. Wel, mae'n un yr ydym wedi'i gyflawni fel teulu a chymuned.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am Glybiau Ceir (cynlluniau rhannu ceir) ond yn tueddu i feddwl amdanyn nhw fel dim ond bod mewn ardaloedd trefol. Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig angen car. Felly pam fyddai unrhyw un yn ystyried ymuno â Chlwb Car neu fod yn ddigon dewr i geisio cael un i fynd yng nghefn gwlad canolbarth Cymru? Gofynnwch i fy ngŵr, mae wedi bod yn rhedeg Clwb Car Llanidloes cymunedol dielw ers 2007.

Dechreuodd oherwydd ein bod wedi cael llond bol ar gostau cysylltiedig ceir hŷn ail-law "fforddiadwy" yr oedd angen eu disodli bob ychydig flynyddoedd. Ar ôl siarad â phobl leol, yn y pen draw daeth o hyd i dri arall oedd am rannu. Roedd popeth yn ei le, heblaw am gar a doedd dim arian! Yna, cynigiodd un aelod roi benthyg ei gar, ac felly dechreuon ni gyda phedwar aelod, un priod (fi) a'n tri phlentyn oedd yn gorfod beicio i'r ysgol achos doedd dim car gyda ni ar y dreif bellach, a doedden nhw ddim yn gymwys i gael cludiant i'r ysgol. Ni chawsant unrhyw ddrwgdeimlad; I'r gwrthwyneb fe wnaethant ddysgu rhyddid beicio.

Goramser tyfodd y Clwb Car ac fe fenthycodd eraill eu ceir i'r clwb. Oherwydd monitro costau a thaliadau addasu gofalus nid yn unig y mae'r Clwb yn talu am y gost redeg, ond hefyd wedi arbed digon o arian i brynu cerbydau newydd. O ganlyniad, tyfodd y clwb i dros 50 o aelodau ac yn berchen ar 3 char a fan.

Yn ystod ein blwyddyn gyntaf gostyngodd ein milltiroedd o 21,000 i 7,000 arbediad o £2,000. Heb gael car wedi ein dysgu i gynllunio a threfnu teithiau i fod yn amlbwrpas. Mae llawer o aelodau eraill hefyd wedi lleihau'r eu milltiroedd. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn defnyddio'r clwb yn lle bod yn berchen ar ail gar. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod o hyd i'r Clwb Ceir ar lafar gwlad.

Er mwyn i'r Clwb Car gael EV (yn costio £30,000+) roedd yn ymddangos yn amhosibl. Ond o'r diwedd fe gyrhaeddon ni'r cam o brydlesu Renault Zoe gan wybod y byddai defnydd y Clwb Car ar y pryd yn talu'r costau.

Yn 2020 roedd Clwb Ceir Llani yn cysylltu ag Agor Drenewydd, sefydliad cymunedol yn Y Drenewydd. Un o'i brosiectau oedd datblygu Clwb Car Trydan Canolbarth Cymru. O'r cydweithrediad hwn Trip i ei eni. Mae ein ceir bellach wedi'u lleoli yn Llanidloes, Machynlleth, Llandrindod a Phenrhyn-coch.

Ym mis Mehefin symudon ni i Benrhyn-coch a rydym yn barod i sefydlu Clwb Ceir yma. Eisiau rhoi cynnig ar EV? Beth am ymuno â ni am fis neu ddau i roi cynnig arni?

Am fwy o wybodaeth www.tripto.org.uk neu ffonio 07938 110778. Barbara Grantham, aelod o'r Clwb Ceir Llani












# Enwau lleoedd
## Angharad Fychan

Yn union islaw'r ffordd sy'n arwain o Dal-y-bont i Gwm Ceulan, gyferbyn â fferm Glanrafon, safai unwaith dyddyn bach (SN67679006), er nad oes unrhyw olion ohono'n weddill heddiw.

Ceir tystiolaeth o'i fodolaeth o ganol y ddeunawfed ganrif. Rhestrir *Gabwd* fel un o ddaliadau rhydd plwyf Llanfihangel Genau'r-glyn yn 1760 (Iwan Wmffre, *Place-Names of Cardiganshire* (2004) 1135). Ffurf braidd yn estron, *Gaabwood*, a welir ar fap Joseph Singer 'A new map of Cardiganshire' yn 1803. Ac mae'r Arolwg Ordnans yn nodi'r ffurfiau *Gabot* ar y 'Surveyor's Drawings' yn 1833, a *Gabwt* ar fap chwe modfedd 1887.




**Map Arolwg Ordnans 6" Ceredigion IV NW (1887)**
© Arolwg Ordnans (100064713)

Nid yw'n cael ei enwi ar Restri Map Degwm Llanfihangel Genau'r-glyn yn 1847, dim ond ei nodi fel 'Cottages & gardens' (sy'n awgrymu bod yno fwy nag un tŷ). Serch hynny cedwir cof ohono mewn enwau tri chae cyffiniol, sef *Cae gabwd* a *Cae clwt y gabwd* islaw'r ffordd, a *Bank y gabwd* uwchlaw. Diddorol yw sylwi bod enw un o'r caeau hyn, *Cae gabŵd*, yn parhau i gael ei arddel heddiw gan Rhian Evans, Glanrafon.

Yn ei gyfrol *Ar Bwys y Ffald* (2001; t.170), cofnoda Gwilym Jenkins, Ty'n-graig, ffurf helaethach ar yr enw sef *Cabwdwinau*, gyda'r ansoddair *gwinau* yn golygu 'browngoch'.

Ymddengys mai'r gair *cabŵd* sydd yma, gyda'r acen yn disgyn ar sillaf olaf y gair yn wahanol i batrwm arferol yr iaith Gymraeg. Awgryma ffurf Gwilym Jenkins, lle mae'r ansoddair *gwinau* yn treiglo yn dilyn *cabŵd*, mai enw benywaidd ydyw. Byddai hynny'n esbonio'r treiglad ar ôl y fannod yn ffurfiau'r Map Degwm, *Cae clwt y gabwd* a *Bank y gabwd*. Efallai mai tuedd enwau lleoedd i dreiglo, weithiau'n dilyn bannod goll, sydd i gyfrif am y ffaith bod ffurfiau cynnar yr enw yn dechrau â'r llythyren *G-*.

Digwydd *cabŵd* mewn dau enw lle arall yng Ngheredigion: *Gwerngabŵd*, enw diflanedig yn ardal Silian, Llanbedr Pont Steffan, a fferm *Cabŵd* yng Nghwm Berwyn, Tregaron. Ond beth yw ei ystyr a'i arwyddocâd?

Mae'n bosibl ei fod yn gysylltiedig â'r gair *siligabŵd*, *silicabŵd*, *jilicabŵd*, &c., sy'n digwydd ar lafar yng Ngheredigion (ac yn y de-orllewin yn ehangach) am y planhigyn gardd cyffredin 'hen ŵr' ('southernwood' yn Saesneg) a ddefnyddid gynt at ddibenion meddyginiaethol. Tybed felly, a oedd llawnder o'r planhigyn hwnnw yn tyfu yng Nghabŵd, Cwm Ceulan, ar un adeg?

**Angharad Fychan**

Paratowyd gyda chefnogaeth Cymdeithas Enwau Lleoedd Cymru
**www.cymdeithasenwaulleoedd.cymru**

**GWASANAETH GARDDIO MYNACH**
**Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio**
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
**Ffoniwch Meirion:**
07792 457816
01974 261758
**e-bost:** mynachhandyman@yahoo.com

**R.J Edwards a'i Fab**
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mân
01970 820149

SIOP Y PETHE
Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion
**01970 617120**
Nawr yn cynnig gwasanaeth Cliciwch a Casglwch ar ein gwefan
www.siopypethe.cymru


**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
**y tincer**
**Cysylltwch â'n Trefnydd Hysbysebion Cêt Morgan, Fferm Glanfrêd**
**cetmorgan@icloud.com**
**07966 510195**

# Goginan

**Cydymdeimlo**
Cydymdeimlwn gyda Dai a Carol Jones, Is y Coed ar teulu ar farwolaeth chwaer yng nhyfraith Dai, sef Valerie Jones o Benrhyn-coch yng Ngorffennaf.

Cydymdeimlwn hefyd gyda theulu Alun Jenkins, Waunfawr, Aberystwyth fu farw diwedd Gorffennaf. Cafodd Alun ei fagu yn Goginan a bu yn aelod ffyddlon o Gapel y Dyffryn.


Un arall a fu farw yn ystod yr haf oedd Nigel Hellawell, Valley Forge gynt. Roedd ef a Sue ei wraig wedi symund yn ôl i'r de ers rhai blynyddoedd erbyn hyn.

**Ymddeol**
Pob lwc i Colin Mason, Tŷ Sgwar, ar ei ymddeoliad ar ddechrau Awst o Adran Hyfforddiant Ceredigion (gwaith coed). Roedd wedi bod yn gweithio yno am dros saith mlynedd ar hugain.

**Sioe Yr Urdd – Deffro'r gwanwyn**
Braf oedd gweld Martha Davies, wyres y diweddar Tom a Iona Jones. TirNaNog yn serennu yn Sioe gerddorol yr Urdd ar y llwyfan yng nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen i'w gweld ar lwyfan eto yn fuan.

**Gwellhad buan**
Dynuniadau gorau i Bethan Bebb, Penpistyll ar wellhad buan ar ôl cael triniaeth brys yn Ysbyty Athroafol Caerdydd. Mae yn ddiolchgar iawn o'r gofal bendigedig a gafodd ond mae yn bell o adref pan mae'n dod i deithio yno ag adref.

**Llongyfarchiadau**
Braf yw cael llongyfarch Caryl Hughes, Hafodau ( neu fel yr adnabyddir i chi Caryl Lewis) ar ennill gwobr Llyfr y Flwyddyn. Cafodd ei nofel Saesneg gyntaf *Drift* ganmoliaeth uchel gan y beirniaid. Enillodd Caryl y wobr Gymraeg yn 2005 a 2016 a hi yw'r gyntaf i ennill yn y ddwy iaith.






## Colofn **Elin Jones AS**

Er gwaetha'r tywydd gaeafol rydym wedi cael dros yr haf, roedd yn braf cael mynychu nifer o wahanol ddigwyddiadau llwyddiannus iawn, gan gynnwys y Sioe Frenhinol a'r Eisteddfod Genedlaethol, ac roedd yn bleser gweld llwyddiant a chynrychiolaeth gref o Geredigion yn y ddau ddigwyddiad cenedlaethol.

Roedd yn wych cael bod yn rhan o ddigwyddiadau llwyddiannus lleol hefyd, gan gynnwys gwyliau bwyd, sioeau amaethyddol a gwyliau crefft, er roedd yn flin gen i glywed fu raid i sawl sioe wynebu'r siom o ganslo oherwydd y tywydd ofnadwy cafwyd ar un penwythnos ym mis Awst.

Dwi'n siwr fydd nifer ohonoch yn parhau i rannu'r un gofid â mi am ddyfodol ein gwasanaethau bysus lleol. Mae peth rhyddhad tymor byr wedi dod wrth i Lywodraeth Cymru ddarparu ychydig o gymorth drwy'r Gronfa Bontio ar gyfer Bysiau, ond nid yw hyn yn ddigon yn y tymor hir yn ôl undebau'r cwmniau bysus. Bu hefyd peth newyddion da yn ddiweddar wrth i'r Gweinidog dros Drafnidiaeth gyhoeddi cymorth dros dro ar gyfer gwasanaeth y Cardi Bach yn ne Ceredigion sy'n sicrhau'r gwasanaeth tan yr Hydref. Gobeithio gellir dod o hyd i ddatrysiadau tymor hir yn fuan, a byddai'n parhau i lobio am hyn.

Llongyfarchiadau i Ben Lake am gael ei ddewis fel ymgeisydd Plaid Cymru San Steffan dros Ceredigion Preseli. Er nad yw'r etholiad wedi ei alw eto, mae Llywodraeth San Steffan erbyn hyn wedi cadarnhau bydd ffiniau'r etholaeth yn ymestyn i gynnwys gogledd sir Benfro, ac enw'r etholaeth ar ei ffurf newydd fydd Ceredigion Preseli.

Wrth i Warren Gatland gyhoeddi ei garfan, edrychwn ymlaen hefyd at Gwpan Rygbi y Byd fydd yn dechrau mis yma, yn dilyn haf llwyddiannus i chwaraeon Cymru. Dewch mlan Gymru!

Bancydarren, Capel Dewi, Capel Madog, Cefn-llwyd, Cwmerfyn, Cwmsymlog, Llwyn-prysg, Penrhiwnewydd, Pen-bont Rhydybeddau, Penrhyn-coch, Salem
Gwefan Cymuned Trefeurig
trefeurig.cymru
- Newyddion diweddaraf
- Hanes a hen luniau
- Cyngor Cymuned
- Mudiadau
- Y Tincer
Gwefan Trefeurig Website
Trefeurig8
whhowells@gmail.com




SIOP
SGIDIAU GWDIHW
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
01970 617092
Shan ac Alys Jones
GWASANAETH
GOFAL TRAED
Ceiropodyddion /podiatryddion
graddedig ac wedi cofrestru efo'r
MRCPod

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
djevansfuneraldirectors@gmail.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

# Dolau

**Graddio**
Llongyfarchiadau mawr i Glesni Morgan raddiodd ym mis Gorffennaf mewn milfeddygaeth o Brifysgol Lerpwl a phob hwyl iddi yn ei swydd newydd



**Pen blwydd priodas ddiamwnt**
Dymuniadau gorau i Margaret ac Ifor Mason, Bryngwyn Mawr, ddathlodd eu priodas ddiamwnt (60 mlynedd) yn ddiweddar.

# Cyhoeddi cyfrol deyrnged

*Penrhaith ein heniaith ni*, cyfrol deyrnged Gruffydd Aled Williams, golygwyd gan T. Robin Chapman a Bleddyn Owen Huws. Atebol, 2023. 256t. £19.99.




Cyhoeddwyd y gyfrol hon yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan, gwaith sy'n anrhydeddu'r Athro Emeritws Gruffydd Aled Williams ar ei ben-blwydd yn bedwar ugain oed yn ddiweddar. Mae'n cynnwys un ar ddeg o ysgrifau gan gyn-ddisgyblion a chyn gydweithwyr i'r Athro ym mhrifysgolion Bangor ac Aberystwyth. Mae'r ysgrifau yn rhychwantu llenyddiaeth Geltaidd a Chymraeg o gyfnod y Gogynfeirdd hyd at y ganrif ddiwethaf.

Mae yma hefyd lyfryddiaeth yr Athro Williams sy'n rhestru ei gyhoeddiadau o'r faled a enillodd yn Eisteddfod yr Urdd, Yr Wyddgrug yn 1958 hyd at sawl eitem a gyhoeddodd eleni. Cyhoeddwyd y gyfrol mewn cydweithrediad ag Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth gan gwmni Atebol, sy'n digwydd bod yn Adeiladau'r Fagwyr, rhyw gae neu ddau o gartre'r Athro yn Dolau.

Ychwanegiad gloyw yn y gyfrol yw cywydd cyfarch y Prifardd Huw Meirion Edwards sy'n gorffen gyda'r geiriau addas:

"... a heuo a fed --
Hau'n helaeth a wnaeth Aled."

Dyma gyfrol bwysig a diddorol, a llongyfarchiadau i bawb sy'n gyfrifol amdani, yn enwedig y golygyddion T. Robin Chapman a Bleddyn Owen Huws.

**Huw Ceiriog**

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

RHYD-Y-PENNAU
COGINIO CARTREF
CHWARAEON BYW . COFFI
01970 867 888

GWASANAETH CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

Croeso i deuluoedd
6 teledu gyda Sky Sports
Lle i eistedd tu allan a bwyty mawr
Bwrdd 'pool' a byrddau darts
Bwyty a Bwyd wedi'i gludo ar gael am ddim
TAFARN Y ROOSTERS
HOME OF/CARTREF I CPD PENRHYNCOCH FC
01970 828 992

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Laurence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, cardiau cyfarch siop drwyddiedig
01970 828312

# CYLCH CINIO



**Siaradwr gwâdd Gorffennaf - Tom Griffiths, Llandre, arbenigwr rhyngwladol ar brofi a datblygu taflegrau a rocedi gyda'r aelodau ym Mhontarfynach.**

**Cyfarfod Gorffennaf**

Troi i gyfeiriad Pontarfynach ac i westy hyfryd Yr Hafod fu hanes aelodau Cylch Cinio Aberystwyth ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf. Bu'n draddodiad ers dechrau'r Cylch Cinio i gynnal cyfarfyddiad Gorffennaf drwy daflu'r rhwyd ychydig yn bellach na'r mannau cyfarfod arferol lleol yn Aber a thro Pontarfynach (neu o'i gyfieithu yn llythrennol o'r Saesneg Pont y Gŵr Drwg} oedd hi eleni.

Y gŵr gwâdd ar gyfer y cyfarfod oedd Tom Griffiths, Llandre, un a fu'n allweddol yn y broses o dreialu a phrofi taflegrau a rocedi. Cododd gwr y llen ar y gweithgareddau yn y ganolfan arbrofi (RAE) yn Aberporth lle bu'n gweithio am flynyddoedd cyn treulio cyfnod yn Awstralia ac yna symud i Loegr i'r brif ganolfan ac ymsefydlu yn Farnborough. Oherwydd natur y gwaith roedd yna gyfrinachedd mawr am y gweithgareddau ac er pwysigrwydd y ganolfan yn Aberporth i amddiffyn ac i ddiogelwch y wlad ac i ymosodiadau ac yn wir i gyflogaeth ac economi gorllewin Cymru cyfyng iawn oedd gwybodaeth y Cardis am yr hyn oedd yn digwydd yno. Roedd y sleidiau a ddangoswyd i ddarlunio'r gweithgareddau yn dangos impact a phwysigrwydd rhan helaeth iawn o arfordir gorllewinol Cymru gyda'r gwaith arbrofi a'r stori yn un anghyfarwydd a gwahanol iawn i aelodau'r Cylch Cinio.



**Gareth William Jones gyda'r Cadeirydd Vaughan Griffiths**

Wrth ddiolch i Tom Griffiths dywedodd Tudor Jones ein bod yn dueddol o feddwl am ardal y Mynydd Bach yng Ngheredigion fel magwrfa i feirdd a llenorion heb sylweddoli bod un a fagwyd yn Bethania a chyn ddisgybl o Ysgol Cross Inn ac Ysgol Uwchradd Aberaeron wedi dringo i frig y byd soffistigedig o arbrofi taflegrau. Er iddo ddod yn un o ffigyrau blaenllaw ei faes mae ei wreiddiau yn ddwfn yng Ngheredigion ac mae bellach yn rhannu ei amser rhwng Llandre a Farnborough.

**Tymor newydd**

Ar noson hyfryd o Fedi dechreuodd y Cylch Cinio ei dymor newydd wrth gwrdd ar Nos Wener, 8fed o Fedi yng Nghlwb Golff Aberystwyth. Croesawyd yr aelodau gan y Cadeirydd newydd, sef Vaughan Griffiths o Bow Street. Roedd yn braf cael cymdeithasu unwaith eto ar ôl cael seibiant dros yr haf a phawb yn edrych ymlaen at raglen ddiddorol.

Gareth William Jones o Bow Street oedd ein siaradwr gwadd. Testun y sgwrs oedd hiwmor Cymreig . Roedd rhaid i Gareth esbonio ambell air gan y Cofis i ni fedru deall y jôc! Rhaid canmol Gwasg y Lolfa am gyhoeddi llawer o lyfrau ar hiwmor Cymraeg . Da oedd deall bod hiwmor Cymraeg dal yn bodoli . Sgwrs hynod o ddifyr gyda llawer iawn o chwerthin ac yn y byd sydd ohoni mae yn bwysig i bawb chwerthin.

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth un o'n haelodau a sefydlwyr y Cylch a fu yn selog iawn i'r Cylch Cinio dros y blynyddoedd sef Mr Tegwyn Lewis Rhos-goch.

Bu Tegwyn yn aelod ffyddlon am flynyddoedd maith a roedd ei gyfraniad yn werthfawr iawn a mawr fydd ei golled yn ein cyfarfodydd. Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cylch i'r teulu yn eu hiraeth. Cydymdeimlwyd hefyd gyda un o'r aelodau - sef Geoff Davies ar golli ei frawd yn ddiweddar.

Talwyd y diolchiadau gan Gwynfryn Evans ac enillwyd y raffl gan John Price.

Bydd lleoliad newydd tro nesaf pan fyddwn yn cwrdd yn yr 'Home Cafe' Heol y Wig. Y siaradwraig wadd fydd Yr Athro Heather Williams, Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd. Croeso i aelodau hen a newydd. Cysylltwch â'r Ysgrifennydd sef Huw_williams1@btinternet.com am ragor o fanylion.









# Capel Bangor / Pen-llwyn

**Ennill ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau i Alaw a Llyr Evans o Bwllcenawon, sydd wedi ennill ysgoloriaeth Gareth Raw-Rees i fynd i ymweld â Seland Newydd. Bydd Alaw yn defnyddio ei thaith i ddatblygu ei gwybodaeth a'i sgiliau o fewn y diwydiant amaethyddiaeth a lletygarwch. Bydd Llyr yn defnyddio ei amser yn Seland Newydd i ymweld â ffermydd gwahanol a ddatblygu sgiliau o fewn y diwydiant llaeth.




## Merched y Wawr – Cangen Melindwr



Daeth gweithgareddau'r tymor i ben gyda thaith haf ddydd Sadwrn 17eg Mehefin. Fe'n croesawyd yn gynnes ar y bws a rhannwyd taflenni yn llawn gwybodaeth diddorol a baratowyd gan Hywel Jones. Diolch yn fawr iddo am ei holl waith.

Arhoswyd yng Ngwesty'r Cross Foxes i gael cwpanaid o goffi a chyn gadael yno tynnwyd ein sylw at Dyddyn y Garreg lle bu'r Crynwyr yn cyfarfod am nifer o flynyddoedd a'r fynwent gerllaw. Yna ymlaen â ni i Drawsfynydd ac i'r Ysgwrn, sef cartref Hedd Wyn. Cawsom ychydig o hanes y bardd a chyfle i fynd i'r tŷ ac ymweld â'r tai allan. Diddorol oedd sylwi ar y gwaith a wnaed yno ers ymweliad diwethaf y gangen â'r lle a'r cefndir i hyn. Cyn gadael Yr Ysgwrn cafwyd te prynhawn a chyfle i ymweld â'r siop. Aethpwyd heibio'r gofeb i Hedd Wyn cyn gadael Trawsfynydd. Mwynhawyd y golygfeydd o Drawsfynydd heibio i Lyn Trawsfynydd hyd at Lyn Celyn. Ymwelwyd â Chapel Coffa Llyn Celyn ac yno daeth Aeron Prysor i'n cyfarfod a chlywsom fel y bu'n rhaid i'w deulu ef a theuluoedd eraill yr ardal symud o'u cartrefi er mwyn creu'r llyn. Mwynhawyd pryd blasus o fwyd yn Yr Eagles yn Llanuwchllyn ar y ffordd adref.

Diolch yn fawr iawn i'r swyddogion am y paratoadau trylwyr a wnaed ganddynt er sicrhauein bod yn mwynhau'r diwrnod.



Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

Canolfan Morlan, Morfa Mawr
Aberystwyth Ceredigion
SY23 2HH
www.morlan.cymru

BRIDGE HOUSE CLEARANCE
Gardd neu Sied – Gwaredu Ysbwriel
Cartrefi a Busnesau
Trwydded i Gludo Gwastraff
Gwerthu eich ty? Gallwn ei glirio
Ysgwiriant llawn, Pris am ddim
f 07792457816 / 01974 261758

**Gwahoddiad**

A ydych yn gyn-aelod o Gangen Melindwr o Ferched y Wawr? A ydych yn sylweddoli bod y gangen ar fin dathlu pen blwydd yn 40? Cynhelir NOSON DATHLU 40 am 7.00 yr hwyr ar Hydref 3ydd yn Neuadd Bentref Pen-llwyn Capel Bangor. Ceir adloniant gan y grŵp 'Triana' a bwffe i ddilyn. Bydd yn gyfle i bawb ddod at ei gilydd i fwynhau noson gymdeithasol lawn hwyl ac i ddathlu'r garreg filltir bwysig hon.

Bydd croeso cynnes i gyn-aelodau Cangen Melindwr ac i aelodau newydd ymuno yn y dathliad. Gofynnir i unrhyw gyn-aelod neu aelod newydd sy'n dymuno mynychu, roi gwybod cynted â phosibl drwy gysylltu â Rita Jones (ysgrifennydd) ar 01970 881073.

**Dathliad arbennig**

Llongyfarchiadau i Mr. Tom Hughes James, Penbontbren ar ddathlu ohono ei ben blwydd yn bedwar ugain oed ar 13eg o Fedi. Arferai Tom fod yn brysur iawn yn ystod yr haf yn arddangos ei geffylau mewn sioeau cyfagos, ond efallai fod y dyddiau hynny yn araf ddirywio a'r diddordebau yn newid gydag amser. Pob dymuniad da -mwynha'r dathlu.

**Genedigaethau**

Llongyfarchiadau i Eilir a Linda Morris, Glennydd, Pen-llwyn, ar enedigaeth gor- ŵyr bach newydd - sef Cynan Llŷr yng Nghaerdydd ar Orffennaf 13eg. Mab i Angharad a Huw a brawd i Siwan Esyllt. Ŵyr i Gaenor a Phillip, Llanymddyfri. Dymuniadau gorau oddi wrth y teulu a ffrindiau oll.

Ganwyd Gwilym Ebeneser yn Rhydaman - plentyn Aled Roberts a Ceri, ac ŵyr cyntaf i Meinir a Glyn Roberts o ardal Pwllheli. Mae Mam-gu a Dat-cu wedi gwirioni ar eu hŵyr bach ac yn teithio i lawr i Rydaman yn aml er mwyn cael cwtch. Yr un dymuniadau da i chithau fel teulu.

**Gwellhad buan**
Dymuniadau gorau i Miss Ann Vaughan, Gwarddol ar ôl ei llawdriniaeth diweddar yn Ysbyty Bron-glais. Da iawn cael dy gwmni yn ôl gennym yn yr oedfaon erbyn hyn, brysia wella gan gymryd gofal yr un pryd.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn, fel ardal â Mr. a Mrs. Maldwyn James, Afallon wrth iddynt golli brawd ym marwolaeth Dr. Daniel Rees, Penuwch. Da gweld Anne yn ôl yn cymdeithasu ar ôl ei hanffawd beth amser yn ôl. Pob dymuniad da.

**Hedfan i Toronto**
Dymuniadau gorau i Ffion Williams, Brynrheidol sydd wedi mynd am flwyddyn fel rhan o'i chwrs gradd Hanes a Gwleidyddiaeth i Brifysgol Toronto yng Nghanada. Dymunwn yn dda iawn iddi ac edrychwn ymlaen i gael y newyddion pan y daw yn ôl adref.

Hefyd ei chwaer Kate sydd wedi derbyn gradd dosbarth cyntaf mewn Ffrangeg ac Eidaleg o UCL Llundain. Mae wedi bod yn ffodus o gael swydd gyda Chyhoeddwyr Bloomsbury yn Llundain. Da iawn Kate, llongyfarchiadau cynnes a phob dymuniad da ymlaen. Roedd y ddwy chwaer yn arfer bod yn aelodau ffyddlon o Ysgol Sul Pen-llwyn, ble mae'r blynyddoedd wedi mynd dwedwch.

**Llwyddo yn TGAU a Lefel A**
Llongyfarchiadau haeddiannol i bob un ohonoch a lwyddodd yn eich arholiadau yr haf hwn, dymunwn bob llwyddiant i chi i'r blynyddoedd i ddod.

**Disgleirio ym myd y bêl-droed a Rygbi**
Llongyfarchiadau i Iestyn Lewis, Llwyndafydd ar gael ei ddewis eleni eto i chwarae pêl droed i Academi Aberystwyth. Yn ogystal eleni cafodd ei ddewis i chwarae i Geredigion; dymuniadau gorau, da iawn ti.

Yr un llongyfarchiadau i Efanna Lewis, Ystrad ar gael ei dewis i chwarae rygbi yn nhim Newydd Bae Ceredigion, Y Dolffiniaid o dan 16 oed. Mae Efanna yn ogystal wrth ei bodd pan yn cymryd rhan mewn chwaraeon, gwych.

Braf gweld nifer o blant yr ardal wedi cymryd rhan yn y "Pony Games" yn sioe Capel Bangor eleni. Maent yn cael eu hyfforddi yn Felin Rhiwarthen gan Iola a hynny'n wythnosol, llongyfarchiadau iddynt bob un.

**Gadael y Nyth**
Dymuniadau gorau i Luned Jones, Tangeulan sydd ar fin dechrau ei chwrs ym Mhrifysgol y Met Caerdydd gyda'r bwriad o ddilyn cwrs Therapydd Iaith a Lleferydd. Mae'n hyfryd gweld Cymry Cymraeg yn ymgeisio am swyddi o'r fath, ac yn rhoi plentyn yn dawel ei feddwl wrth siarad yn ei famiaith. Aelod ffyddlon arall o Ysgol Sul Pen-llwyn.



Alaw Evans wedi cyflawni cwrs Gwestai a Lletygarwch ym Mhrifysgol De Cymru gyda chanlyniad gradd dosbarth cyntaf.



## Sefydliad y Merched, Pen-llwyn

Mwynhawyd cyfarfod mis Awst drwy ymweld â ffermwr Alpaca yng Nghwmrheidol. Cawsom ein goleuo wrth ddysgu llawer am yr anifeiliaid unigryw yma - pa mor aml y byddant yn cael eu cneifio, ac ychydig o'u hanes gwreiddiol. Dangoswyd i ni nifer o eitemau gwlan a gafodd eu gwau o wlan Alpaca. Cawsom, fel aelodau, siawns i ddod i adnabod yr anifeiliaid a'u bwydo. Yn dilyn croesawyd ni i baned a chacen a bu'r ymweliad wrth fodd pob aelod. Diolchwyd am y croeso.

Mae'r gangen o Sefydliad y Merched yn cyfarfod ym Mhen-llwyn bob yn ail ddydd Iau o'r mis am 2 o'r gloch y prynhawn (roedd cyfarfod ar y 14eg o Fedi gyda Helen Palmer yn siarad am Warchodaeth Cathod). Croeso cynnes i ymwelwyr.



## Ennill gwobrau

Llongyfarchiadau i Gruffydd Rhys Ifans ar gael ei ddewis gan y panel gwobrwyo - - Ioan Hefin, Elinor Wyn Reynolds ac Euros Lyn- yn un o enillwyr tair ysgoloraeth Cymdeithas Drama Gymraeg Abertawe am 2023. Mewn blwyddyn o geisiadau uchel iawn eu safon penderfynodd y panel gwobrwyo - gynnig tair ysgoloriaeth i dri sydd ag uchelgais bersonol gwahanol iawn i'w gilydd ym myd y ddrama.

Mae Gruffydd newydd orffen ei addysg uwchradd yn Ysgol Penweddig ac am fynd ymlaen i astudio actio yn academi RADA (Cwrs BA tair blynedd), yr unig Gymro i lwyddo i ennill lle o blith amcangyfrif o 4,500 o geisiadau eleni. Bu Gruffydd ar gwrs Sylfaen mewn Ysgol Ddrama yn Rhydychen cyn ceisio am y cwrs pwysig yma. Pob dymuniad da, edrychwn ymlaen i'r blynyddoedd nesaf yma a cael dy weld yn ymuno â Ioan Gruffydd a Mathew Rhys i enwi ond rhai a fu ar yr un cwrs. Rwyt wedi rhoi Capel Bangor ar y map yn barod, da iawn!! Dymuniadau gorau iddo.

Daeth newyddion pellach i Gruffydd yr wythnos ddiwethaf pan glywodd mai ef yw enillydd Gwobr Syr Ian McKellen am 2023. Dyfarnwyd iddo £500 tuag at ei astudiaethau o'r Wobr a sefydlwyd gyda chronfeydd gyfranwyd yn ystod ymweliad Syr Ian McKellen â Chanolfan y Celfyddydau yn 2019.



# Bow Street

**Suliau Capel y Garn**
**10.00**
*Medi*
24 Bugail

*Hydref*
1 Noddfa
8 Bugail
15 Bugail
22 Oedfa'r ofalaeth - Garn
29 J Tudno Williams

**Suliau Noddfa**
**(Pob Oedfa am 10.00)**
*Medi*
24 Richard Lewis

*Hydref*
1 Richard Lewis. Y Garn yn Uno.
8 Richard Lewis. Cymundeb.
15 Cyfeillach yng ngofal Gareth William Jones.
22 Richard Lewis
29 Oedfa Beiciau Gwaed Cymru.

**Y Garn ym mis Awst**
Braf a bendithiol oedd cael cyd-addoli ag aelodau Capel Noddfa ar wahanol Suliau mis Awst, ac ag aelodau capeli'r Ofalaeth ym Mhen-llwyn ddechrau mis Medi. Wrth estyn ein cydymdeimlad â Llinos Evans ar farwolaeth ei brawd, Tegwyn Lewis, Rhos-goch, Capel Madog - un o wroniaid yr ardal, cofiwn yn ddwys hefyd am ei wraig Aldwyth a'u dwy ferch, Mererid ac Angharad.

Bydd Cymdeithas y Chwiorydd yn cyfarfod am De Diolchgarwch yn y Garn am 2.00 brynhawn Mercher, Hydref 4ydd. Fore Sul, Hydref 8fed, bydd gwasanaeth i'r Ofalaeth yng Nghapel y Garn. Yn dilyn hynny mae cinio wedi ei threfnu yng Ngwesty'r Marine i ddathlu, llongyfarch a diolch am hir-wasanaeth gwerthfawr pedwar o'n gweinidogion ymroddgar, sef Y Parchedigion Elwyn Pryse a ordeiniwyd yn 1954, John Tudno Williams yn 1963, Watcyn James yn 1983, a Wyn Morris yn 1998.

**Pen blwydd Priodas**
Llongyfarchiadau mawr i Peter a Dinah Henley, Dôl Eglur ar ddathlu 60 mlynedd o fywyd priodasol ar y 14eg o Fedi.

**Anrhydedd Fawr**
Llongyfarchiadau mawr i Rhiannon Mair Griffiths, merch Martin a Sian Powell, Maes Ceiro, ar gael ei anrhydeddu ag MBE am ei gwaith gyda Comic Youth CIC yn ddiweddar. Tybed a fydd Sian yn ymlwybro tua Palas Buchingham cyn bo hir?

**Llwyddiant ym Moduan**
Llongyfarchiadau mawr i Aled Myrddin a Chôr Meibion Machynlleth ar eu llwyddiant yn dod i`r brig yn y gystadleuaeth i gorau meibion yn Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionnydd.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad â Lila Piette a'r teulu, Llys Hedd, ar farwolaeth ei mam Mair Piette yn Hafan y Waun yn 101. Bu'n byw am gyfnod ym Maes Ceiro rai blynyddoedd nôl.

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus i mam/ mam-gu (Jane Maria Jones gynt o Rhydtir Isaf, Bow Street) oedd yn 80 oed ar 31 Awst. Cariad mawr, Dai Alun, Glesni a Dylan, Nerys a Llyr, Tomos a Catrin, Ffion a Lewis, Aled a Darci, Dafydd ac Owain xxx

**Teulu prysur**
Llongyfarchiadau i Gruff Ceiro, mab Osian a Bethan Jones, Yr Wyddgrug ac ŵyr i Vernon a Dilys, Gaerwen ar ganlyniadau Lefel A ardderchog. Bydd Gruff yn cychwyn ym Mhrifysgol Bangor ganol y mis gan astudio Ieithoedd Modern (Ffrangeg a Sbaeneg) ac Ieithyddiaeth. Hefyd, llongyfarchiadau i'w frawd Ifan Ceiro ar ei ganlyniadau TGAU arbennig. Bydd Ifan yn dychwelyd i 6ed dosbarth Ysgol Maes Garmon i astudio Mathemateg a'r Gwyddorau ar gyfer ei Lefel A. Mae Ifan wedi cael llwyddiant ar y cae pêl droed yn ogystal yn ddiweddar gan chwarae yn gyson i ail dim CPD Yr Wyddgrug a bod yn rhan o garfan y tim cyntaf. Gan ddilyn yn ôl troed eu brawd, mae Elan Ceiro newydd cael ei dewis i fod yn rhan o garfan pêl-droed dan 11 Merched Ysgolion Sir y Fflint a mae Rhys Ceiro yn chwarae'n gyson dda i dim dan 15 CPD Tref Y Fflint. Yr ymarfer efo dad-cu ar lawnt Gaerwen yn amlwg yn talu ar ei ganfed!

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Ceris Van de Vyver a Will Hughes ar farwolaeth Beti Hughes, Llys Hafod (Cardi Cycles gynt). Cofiwn at Wil ym Min y môr, Aberaeron.

Hefyd â John Clarke, Hafwen a Tirion ar farwolaeth Caryl Clarke ganol mis Medi.



## Pen Blwydd Priodas Diamwnt

Dathlodd Rees a Mary Thomas, Tŷ Clyd eu priodas ddiamwnt ar 10 Awst. Bu cyfeillion yn dathlu yng Nghrefftau Pennau. Dymuniadau gorau iddynt.



**Pen blwydd arbennig**
Pen blwydd hapus i Beti Jones, Maes Ceiro fydd yn dathlu pen blwydd arbennig ar 7 Hydref. Yma gwelir hi a'r teulu yng nghwmni ei gor-nai, Jack Morgan, Brynaman, capten tîm rygbi Cymru. Mae Garth, tad-cu Jack yn frawd i Beti.

# Cartref Tregerddan



Yn ddiweddar cyflwynwyd cloc i Gartref Tregerddan gan deulu Gwenda Edwards Ty'n y gwndwn er cof amdani. Roedd Gwenda wrth ei bodd yn eistedd yn y lolfa wydr ond yn sôn yn aml nad oedd cloc yno. Erbyn hyn drwy haelioni'r teulu mae un yno ar gyfer y preswylwyr. Yn y llun o'r chwith i'r dde mae Eleri ei wyres, Helen ei chwaer yng nghyfraith, Meirion ei mab, a Lilian ei chwaer.

# Madog, Dewi / Cefn-llwyd

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Aldwyth, Mererid ac Angharad a'r teulu, Rhos-goch, ar farwolaeth Tegwyn Lewis hunodd yn dawel yn ei gartref dydd Sul, 3 Medi, Cynhaliwyd gwasanaeth cyhoeddus ym Madog ar 13 Medi, 2023; derbynnir yn ddiolchgar roddion er cof am Tegwyn i Gronfa Nyrsys y Gymuned Meddygfa Ystwyth drwy law Alwyn Hughes.

Cydymdeimlwn hefyd â theuluoedd Gellinebwen a Rhydyceir Cyhoeddir teyrnged yn rhifyn nesaf y Tincer.

Cydymdeimlwn â Marged Haycock a'r teulu ar farwolaeth ei chyfyrder Jim Davies.

**Marchnad Aberystwyth (1018) 24 Mehefin**
Llai o niferoedd ond digon o alw a 9 prynwr. Prisiau fel isod.
Brokers (690) – Amcg cyffredinol £66.85 Mwy £145 gan Jones, Lletycynnes, Bow Street. Eraill i £138 gan Howells, Gwarnant, Llangwyryfon.
Hyrddod (41) - Amcg £128.50, Mwy £186 gan Rees, Brysgaga, Bow Street. Eraill i £152 gan Innovis.
Ŵyn a hyrddod (39) – Amcg £103, Mwt £110 gan Stad Evans, Ruel Isaf, Bow Street. Eraill i £95 gan Jones, Pandy, Bryncrug.
Ŵyn (206) – Amcg £91.20, Mwy £123 gan Williams, Ffynnon Oer, Capel Seion. Eraill i £122 gan Williams, Bwlchbach, Southgate.
Ŵyn blwydd (47) – Amcg £59.40, Mwy £93 gan Rowlands, Tyn Ddôl, Llangurig. Eraill i £56 gan Evans, Fronfraith, Comins-coch.
Diolch am eich cefnogaeth

**22 Gorffennaf (1009)**
Cyfanswm o 1009; gwerthwyd y cyfan.
Gwerthu cyson ym mhob dosbarth er gwaethaf y tywydd.

Defaid lladd (664) Amcg £63.80 Mwy £125 gan Davies, Treial Mawr, Llan-non.
Eraill i £123 gan Lewis, Cwmerfyn Farm, Cwmerfyn
Hyrddod 24 Amcg £125 Mwy £160 gan Breese, Gogath, Pennal
Eraill i £140 gan William, Penrhos, Tal-y-bont.
Ŵyn stor (321) Amcg £72 Mwy £111 gan Evans, Berthlwyd, Cross Inn
Eraill i £106.50 gan Price Llwyn, Cwmerfyn

**Awst 5 (772)**
Gwerthwyd y cyfan.
Gwobrwywyd y rhai fentrodd deithio drwy dywydd garw gyda masnach gwych drwy'r sesiwn fel y gwelir isod.

Brokers (584) Amcg £72.90 Mwy £146 gan Evans, Pen-y-graig, Y Borth.
Eraill i £128 gan Jenkins, 14 Pen-y-graig, Aberystwyth
Hyrddod (3) Amcg £116 Mwy £156 gan Jones, Gwernhafdre, Swyddffynon.
Eraill i £110 gan yr un gwerthwr
Ŵyn (185) Amcg £84.40 Mwy £112 gan Twm Morris, Rhoslefain, Tywyn.
Eraill i £105 gan Gareth Evans, Tywyn.
Prysiau da o'r cychwyn i'r diwedd er gwaethaf y tywydd. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr.

**Awst 19** (1501) (gwerthwyd 1481)
Mynediad cryfach gyda llawer o werthwyr yn chwilio am famogiaid magu
Brokers (952) Amcg £63.23 Mwy £150 gan Jones, Caebalcog, Swyddffynnon.
Eraill i £130 gan Evans, Gwynfa, Llangwyryfon. £127 i Brifysgol Aberystwyth\.
Mamogiaid magu (51) Amcg £98 Mwy £150 gan Evans, Glanyrafon, Tal-y-bont. Eraill i £114 gan Lewis, Fferm Llanbadarn.
£98 gan Jones, Cwmgwenin, Llangeitho.
Hyrddod (13) Amc £77.85 Mwy £108 gan Watkins, Pant-y-dwn, Dôl-y-bont. Eraill i £101 gan Price, Blaenllyn, Horeb.
£84 gan Watkins, Pant-y-dwn.
Wyn stor (471) Amcg £78.94 Mwy £106 gan Hopkins, Hafodlas Uchaf, Llangwyryfon. Eraill i £105 a £102 gan Lewis, Tŷ Llwyd, Pennant.




**Ennill gwobr**
Llongyfarchiadau i Ruth Jen, gynt o Gefnp-llwyd, ar ennill gwobr fawreddog Josef Herman yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Moduan am ei gwaith celf ceramig.

£100 gan Ellis, Nantgwynfynydd, Llan-non. (13) amcg £72 Mw £83 gan Jehu, Penybanc, Darowen.
Eraill i £79 gan Lloyd, Graiglas, Llanidloes.
Y galw yn dda am bopeth, a digon o brynwyr yn bresennol. Prisiau fel yr uchod. Diolch i'r prynwyr a'r gwerthwyr.

**Medi 2** 2466 (gwerthwyd 2458 )
Niferoedd mawr gyda phopeth yn anoddach i'w gwerthu, ond gwerthwyd popeth ar wahan i ychydig o hyrddod magu. Roedd mwy o famogiaid magu yn cael eu cynnig a bu gwerthu da arnynt. Ac roedd masnachu da ar yr ŵyn cigog ??

Cyfartaledd fel isod
Mamogiaid magu (688) Amcg £63 Mwy £240 gan Lewis, Glanrheidol, Capel Bangor.
Lladd (891) Amcg £50.50 Mwy £152 gan Bumford, Brynglas, Chancery.
Hyrddod (27) Amcg £76 Mwy £140 gan Bound, Banc Tŷ Llwyd
Wyn (860) Amcg £74 Mwy £150 gan Evans, Penybanc, Trefenter.
Eraill i £110.
Fel hyn oedd hi heddiw, diwrnod braf a phrisiau digon da ar y cyfan ond yn fwy anodd i'w gwerthu. Diolch am y gefnogaeth.



**Llongyfarchiadau i D Evans, Deilyn, am ennill ar gystadleuaeth o ffiol o flodau gardd i ddynion yn unig yn Sioe Capel Bangor**




# Ysgol **Rhydypennau**

**Dal lan â digwyddiadau**

**Garddwest yr ysgol**

Cynhaliwyd ein Garddwest eleni ar y 29ain o Fehefin. Diolch o galon i Bwyllgor Cymdeithas Rhieni Athrawon yr ysgol am drefnu ac i rieni a chyfeillion yr ysgol a fu'n barod iawn i gynnig cymorth yn ystod y noson hefyd. Mi fydd yr arian a godwyd yn gymorth sylweddol i brynu adnoddau a chyfarpar allweddol er mwyn cynnal addysg pob plentyn yn yr ysgol.

**Mabolgampau**

Cynhaliwyd ein mabolgampau eleni ar y 22ain o Fehefin. Y tîm buddugol oedd y tîm coch, Eleri; ail oedd y tîm melyn, Rheidol ac yn drydydd oedd y tîm glas; Ystwyth. Diolch i bawb am ymdrechu mor wych yn ystod y dydd.

**Tripiau Ysgol**

Braf oedd medru trefnu tripiau ysgol i'r plant ar ddiwedd y tymor. Cafodd blwyddyn 5 a 6 ddiwrnod gwych lawr ym Mharc Hamdden Oakwood, treuliodd blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod ym Mharc antur Gelli Gyffwrdd, fe aeth blwyddyn 1 a 2 i Fferm Folly ac fe aeth plant Y Meithrin a'r Derbyn lawr i Lanrhystud i dreulio diwrnod ar fuarth Fferm Ffantasi. Diolch o galon i Bwyllgor Rhieni Athrawon yr ysgol am y cyfraniad ariannol fu'n gymorth sylweddol i gefnogi'r tripiau gan sicrhau profiadau arbennig i holl blant yr ysgol.

**Ymweliadau diwedd tymor**

Ymweliad olaf plant blwyddyn 6 oedd taith gerdded o'r ysgol, trwy Llandre ac ar hyd ffordd Glan-frêd gyda'r bwriad o gyrraedd Ffatri Fêl Maesnewydd. Cafodd y plant brofiadau gwych ar lawr y ffatri. Uchafbwynt yr ymweliad oedd blasu a chymharu mêl lleol gyda mêl o'r Affrig ac i goroni'r ymweliad, cafodd pob plentyn jar o fêl blasus am ddim i fynd adref gyda nhw! Diolch yn fawr i Matt Suggett am ei gymorth i drefnu ymweliad mor arbennig.

**Chwaraeon**

Cafodd bechgyn tîm criced yr ysgol ddiwrnod gwych ar gae criced Aberystwyth ddiwedd tymor diwethaf. Wedi diwrnod o frwydro yn erbyn ysgolion eraill yr ardal, fe enillodd y bechgyn pob gêm a chipio'r Cwpan mewn steil! Llongyfarchiadau mawr fechgyn!

Diolch yn fawr i'n Llysgenhadon Efydd eleni; mae Ishka, Ted, Wil ac Izzy wedi cynnal ac arwain nifer o weithgareddau chwaraeon gwerthfawr iawn i'r plant yn ystod y flwyddyn. Da iawn chi!

**Ffarwelio**

Hoffa'r ysgol ddymuno pob hwyl i blant blwyddyn 6 y llynedd wrth iddynt drosglwyddo i'w hysgolion uwchradd i gychwyn pennod newydd gyffrous ym Mlwyddyn 7.

Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig iddynt yn neuadd yr ysgol; cafodd y criw gyfle i ffarwelio gyda'u ffrindiau i gyd a threulio amser gwerthfawr yng nghwmni ei gilydd am y tro olaf yn ysgol Rhydypennau. Derbyniodd pob plentyn anrheg a thystysgrif arbennig fel atgof o'u hamser yn yr ysgol. Dymuniadau gorau iddynt oll.

Bu'n rhaid i ni hefyd ffarwelio gyda Mrs Eiry Evans sydd wedi bod yn aelod gwerthfawr iawn o staff yr uned feithrin dros y blynyddoedd. Mi fydd Eiry'n golled mawr i'r ysgol ac yr ydym yn dymuno ymddeoliad hir a phleserus iddi.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: *@YGRhydypennau-dilynwch ni ar drydar.*





COPI CYWIR
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580













# Ysgol **Craig yr Wylfa**





Roedd hi'n braf cael croesawu pawb yn ôl i'r ysgol ac yn enwedig y plant newydd. Dymuniadau gorau i'r plant wnaeth ein gadael llynedd a phob hwyl i chi yn yr ysgol uwchradd. Llongyfarchiadau mawr i'r holl gyn ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf hefyd. Pob hwyl i chi gyd gyda'r profiadau newydd.

**Ysgol y Gymuned**

Ar ddiwedd Tymor yr Haf, gofynnwyd i blant Ysgol Craig yr Wylfa greu gwaith Celf yn seiliedig ar yr ardal leol. Dangoswyd y gwaith fel rhan o arddangosfa ehangach yng Nghanolfan Seren y Môr ynghanol y pentref. Thema'r ysgol oedd 'Beth yw Borth i Fi' ac fe gafwyd llawer o sylwadau hyfryd am safon y gwaith.

Yna, ar ddechrau Tymor yr Hydref derbyniwyd gwahoddiad i barti pen-blwydd arbennig iawn, sef dathliad 15 mlynedd ers agor HWB. Mae'r ganolfan yn cynnig pob math o weithgareddau i'r gymuned ac roedden ni'n falch iawn o fod yn rhan o'r achlysur.

**Ysgol y Goedwig**

Pa ffordd well o ddechrau gweithgareddau'r flwyddyn newydd na bod allan yn yr awyr agored yn fforio am ffrwythau o'r coed a'r perthi ger yr ysgol. Rwy'n edrych ymlaen at gael blasu'r cynnyrch!



# Ysgol **Penrhyn-coch**

**Croeso cynnes**
Croeso cynnes iawn i'r canlynol, yn blant a staff i'n teulu mawr : Miss Meleri Jenkins, Elouise, Macs, Amaia, Oliver, Quinn, Gruffudd.

Llongyfarchiadau mawr i Ms. Fflur Edwards ar enedigaeth merch fach. Croeso mawr i Margo Haf.

## DIWEDD TYMOR YR HAF

**Pob hwyl Blwyddyn 6 2023**
Dymunwn pob hwyl i griw Blwyddyn 6, 2023 sef Caio, Gruff, Jasmine, Kyle, Osian, Seren, Sofie, Telyn a Twm, yn eu hysgolion uwchradd ac i'r dyfodol.

**Proms**
Da iawn i'r disgyblion a wnaeth gymryd rhan yn Proms Ceredigion boed yn y gerddorfa, grŵp offerynnol neu yng Nghôr Blwyddyn 6 Ceredigion. Cawsom wledd i'r glust!

**Cyngerdd**
Mawr yw ein diolch hefyd i Mr. Dan Edwards-Phillips a'r athrawon peripatetig am gyngerdd gwych yn ystod Tymor yr Haf.

**Garddio**
Bu rhieni a disgyblion blwyddyn Derbyn yn brysur yn garddio yn ystod y tymor diwethaf. Diolch i Clare a Jane am ddod mewn i'w dysgu a helpu. Cafodd y plant gyfle i ymweld â'r Ardd Gymunedol hyfryd hefyd.

**Arad Goch**
Daeth Ffion Wyn Bowen, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cwmni Theatr Arad Goch i weithio a gwneud ymchwil ar brosiect 'Fi, Cymru a'r Byd' gyda Blwyddyn 5 a 6. Profiad gwych I'r plant! Diolch yn fawr iawn Ffion.

**Gwers Byw NFU**
Fe wnaeth disgyblion CA2 Fwynhau'r wers fyw ar ddyddiadur yr oen. Gwers hynod o ddiddorol a chynhwysfawr am ffermio. Diolch i'r NFU am drefnu!

**Ras yr Iaith**
Cynhaliwyd Ras yr Iaith ar hyd Prom Aberystwyth ar Fehefin yr 22ain ac i goroni'r cyfan ar y llinell derfyn cawsom gig a hanner gan Mei Gwynedd a Band Tŷ Potas a phawb yn mwynhau dawnsio a morio canu. Diwrnod i'r brenin yn wir!

**Ymweliad PC Goffin**
Mwynhaodd bl 3 a 4 wers gan PC Goffin ar sut i ddefnyddio gwn cyflymder, hefyd cawson nhw'r cyfle i weld y fan cyflymder.

**Addysg Heddwch**
Diolch o galon i Medi, Jane ac Andrew am gynnal sesiynau Addsyg Heddwch i ddisgyblion blwyddyn 5 a 6. Cawsom hwyl fawr a dysgu llawer.

**Plant Penrhyn-coch yn enwi stâd newydd**
Cafodd plant Ysgol Penrhyn-coch gyfle i roi cynnig i enwi stâd o dai newydd yn y pentref. Braf yw cael cyhoeddi taw yr enw a ddewiswyd gan y disgyblion – Gwar y Garth - fydd enw'r stâd. Gwelir mwy am yr hanes ar dudalen Facebook y Tincer.

**Tripiau**
**Trip Cyfnod Sylfaen**
I Quackers aeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen. Cawson nhw lawer o hwyl a sbri yn enwedig wrth lithro lawr y llithren llithrig enfawr!

**Trip CA2**
Aeth Cyfnod Allweddol 2 eleni i'r Borth. Diolch o galon i Simon a'i griw o Aber Outdoors am y gwersi syrffio gwych. Diolch hefyd i'r RNLI am daith o gwmpas eu safle ac i'r siop 'It's a gift' am y losin. Er y glaw, fe wnaeth pawb fwynhau mas draw. Trip i'w gofio yn sicr!

**TYMOR YR HYDREF**
**Osian Pryce, Pencampwr Rali Ceredigion**
Llongyfarchiadau mawr i Osian Pryce am ddod yn bencampwr yn Rali Ceredigion. Diolch o galon iddo am bigo mewn i'r ddwy ysgol am gyfweliad gyda'r Cwpan arbennig. Roedd y plant a'r staff wrth eu boddau ac wedi dysgu llawer! Am ddechrau arbennig i flwyddyn newydd ysgol!


Blwyddyn 6 2023


Dosbarth Derbyn yn garddio


Ymweliad Dosbarth Derbyn i'r Gardd


Arad Goch


Bl 3 a 4 a'r fan cyflymder


Addysg Heddwch Bl 5 a 6


Ras yr Iaith

# Ysgol **Pen-llwyn**

Cafwyd amser digon prysur cyn gwyliau'r haf a dyma beth fuodd y disgyblion yn gwneud:

**Criced**
Llongyfarchiadau i dîm criced yr ysgol – buon nhw'n cystadlu yn nhwrnament Cylch Aberystwyth

**Welsh Whisperer**
Cafwyd gwledd wrth i ni fwynhau cyfansoddi gyda'r enwog Welsh Whisperer-cyfansoddwyd can addas iawn am yr Ysgol ac roedd y plant wrth eu boddau!

**Mabolgampau**
Ar ddiwrnod braf ar ddiwedd mis Mehefin, cynhaliwyd mabolgampau'r ysgol ar gaeau Statkraft yng Nghwmrheidol. Roedd hi'n ddiwrnod llawn cystadlu brwd gyda nifer o ddisgyblion o'r ddwy ysgol yn dod i'r brig. Llongyfarchiadau mawr i'r llysoedd buddugol – Stewi a Rheidol.

**Mabolgampau cylch**
Yn dilyn ein mabolgampau ysgol, aeth nifer o'n disgyblion ymlaen i gynrychioli'r ysgol yn y mabolgampau cylch ar gaeau Ysgol Penweddig. Cafwyd diwrnod llwyddiannus tu hwnt efo pob un o'r disgyblion yn gwneud yn arbennig o dda. Yn ystod y dydd, cafwyd 4 safle cyntaf, 5 ail safle a 2 trydydd safle. Diwrnod llwyddiannus.

**Trip i'r traeth**
Penderfynwyd eleni aros yn lleol ac I fwynhau yr ardal hyfryd sydd ganddom - felly cafon ni ddiwrnod o fwynhau ar draeth y Borth. Buon ni am dro I weld dynion y bad achub a dysgu llawer am eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd pawb yn mwynhau sblasio yn y dŵr a twrio yn y tywod! Braf oedd cael hufen iâ a sglodion hefyd!

**Cynllun Caru Gwenyn**
Bu criw y Cyfnod Sylfaen yn brysur iawn wrth iddyn nhw gynllunio a dysgu am beillwyr yn yr ardd. Cafwyd cymorth trwy'r cynllun Llywodraeth 'Caru Gwenyn' wrth i ni baratoi llecyn/gardd addas i ddenu peillwyr o bob math. Hoffwn ddiolch i Geraint Jones am adeiladu 'Palas pryfed Pen-llwyn' i'r trychfilod bach-mae'n foethus iawn!!

**Ffarwelio Bl 6**
Roedd rhaid ffarwelio gyda chriw hyfryd arall eleni eto -Andi, Dafydd, Dyfrig, Manon, Llinos a Raynie

Pob hwyl I chi a diolch am bopeth rydych wedi ei wneud i ni yn yr Ysgol-byddwch wrth eich boddau yn yr Ysgol uwchradd!

**Bydd Ras hwyl Rheidol** yn cael ei chynnal ar yr 8fed o Hydref am 10:15-Croeso i bawb





Gardd hardd dosbarth 1 yn y Sioe Frenhinol




Pwyntiau uchaf fel unigolion blwyddyn 6: Dafydd a Llinos



Mwynhau gyda Ben Lake yn Sioe Capel Bangor




Jack Hughes yn derbyn yr ail wobr yn y Sioe Frenhinol

# Tasg y Tincer

Croeso 'nôl! Gobeithio eich bod wedi cael haf i'w gofio. A fuoch chi'n teithio tipyn ac yn ymweld â llefydd gwahanol? Mae'n siŵr fod sawl un ohonoch wedi bod i'r Sioe Fawr a'r Steddfod ym Moduan. Gawsoch chi wyliau efo'r teulu mewn gwesty, pabell neu garafán? Falle fod rhai ohonoch wedi mentro dros y dŵr ... braf iawn! Mae un peth yn sicr – bu sawl un o ddarllenwyr ifanc Y Tincer yn lliwio dros yr haf: Hanna Guy, Caerdydd; Ellis, Bow Street; Ela Jên Lewis, Capel Bangor; Leusa Jenkins, Y Borth; Elsi Wyn Lewis, Capel Bangor.

Dy lun hyfryd di o'r dolffiniaid, Ela Jên, ddaeth o'r het haul yn gynta – da iawn ti, a da iawn i bawb arall. Roedd eich lluniau'n llawn hwyl a lliw. Daliwch ati!



Ela

Un o'r campau dwi'n mwynhau ei gwylio ar y teledu yn yr haf yw'r rasys beicio. Tour de France yw un o'r rhai enwocaf. Ro'n i wrth fy modd yn gwylio'r beiciwr yn un haid yn gwibio ar hyd lonydd Ffrainc, ac roedd y golygfeydd o'r wlad yn wych! Dwi'n arbennig o hoff o wylio'r daith drwy'r mynyddoedd ... a gweld codwm o dro i dro! Roedd y Giro d'Italia yn gynt yn yr haf, ac mae ras y La Vuelta newydd orffen yn Sbaen. Ac wrth i mi sgwennu hwn ar gyfer rhifyn Medi o'rTincer mae'n dywydd mynd ar y beic gan fod yr haul yn gwenu'n braf.

Y mis hwn, beth am liwio'r llun o'r beiciwr yn mynd fel y gwynt er mwyn ennill y ras a'r maillot jaune, neu'r crys melyn? Ydech chi'n hoffi mynd ar y beic?



| | |
|---|---|
| Enw | |
| Cyfeiriad | |
| Ysgol | |
| Rhif ffôn | Oed |

Anfonwch eich gwaith at y cyfeiriad arferol, Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn 1af Hydref.... Ta ta tan toc!

ISSN 0963-925X

9 770963 925009

Rhif 461 | Medi 2023